

Senedd Cymru

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Adroddiad Blynyddol 2021/22

Hydref 2022



www.senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
www.senedd.cymru/SeneddDCC

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddDCC@senedd.cymru**
Twitter: **[@SeneddDCC](https://twitter.com/SeneddDCC)**

© **Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2022**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Adroddiad Blynyddol 2021/22

Hydref 2022



Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 26 Mai 2021.

Ceir ei gylch gwaith yn www.senedd.cymru/SeneddDCC

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



Cadeirydd y Pwyllgor:
Huw Irranca-Davies AS
Llafur Cymru



Rhys ab Owen AS
Plaid Cymru



Alun Davies AS
Llafur Cymru



James Evans AS
Ceidwadwyr Cymreig

Roedd yr Aelodau a ganlyn hefyd yn aelodau o'r Pwyllgor yn ystod 2021/22.



Jayne Bryant AS
Llafur Cymru



Peter Fox AS
Ceidwadwyr Cymreig

Cynnwys

1. Cyflwyniad.....	5
2. Gweithgarwch deddfwriaethol.....	8
Craffu ar is-ddeddfwriaeth	8
Y cefndir	8
Gwaith craffu dros y flwyddyn ddiwethaf	8
Craffu ar Filiau	12
Y cefndir	12
Gwaith craffu dros y flwyddyn ddiwethaf	13
Biliau Llywodraeth y DU sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer Cymru mewn meysydd datganoledig (Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol)	14
Y cefndir	14
Gwaith craffu dros y flwyddyn ddiwethaf	14
Cytundebau rhwynglywodraethol	18
Capasiti Llywodraeth Cymru i ddeddfu	19
Cydsyniad Llywodraeth Cymru ar gyfer is-ddeddfwriaeth a wnaed gan Lywodraeth y DU.....	19
Y cefndir	19
Gwaith craffu dros y flwyddyn ddiwethaf	20
Cymhlethdod deddfu i Gymru	20
Y cefndir	20
Gwaith craffu dros y flwyddyn ddiwethaf	21
Casgliadau	22
Canfyddiadau a phryderon	22
Llwyddiannau	26
Edrych tua'r dyfodol	27
3. Materion cyfansoddiadol a materion allanol.....	28
Cytundeb Cysylltiadau Rhwyngsefydliadol	28
Y cefndir	28

Hysbysiad bod Llywodraeth Cymru yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd rhynglywodraethol ar lefel weinidogol.....	28
Hysbysiad bod Llywodraeth Cymru yn rhoi cydsyniad i Lywodraeth y DU arfer pŵer deddfwriaethol dirprwyedig mewn maes datganoledig mewn perthynas â Chymru	28
Cysylltiadau rhynglywodraethol.....	29
Fframweithiau cyffredin.....	30
Gweithredu Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020.....	30
Cysylltiadau rhwng y DU a'r UE.....	31
Y cefndir	31
Cyfrifoldebau.....	31
Llywodraethu.....	32
Cynulliad Partneriaeth Seneddol y DU a'r UE.....	32
Crynodeb o weithgarwch y Pwyllgor.....	32
Cytundebau rhyngwladol	33
Y cefndir	33
Crynodeb o weithgarwch y Pwyllgor.....	33
Gweithio rhwngseneddol.....	34
Casgliadau	35
Canfyddiadau a phryderon	35
Llwyddiannau	37
Edrych tua'r dyfodol	38
4. Craffu ar gyfiawnder	39
Y cefndir	39
Arweinyddiaeth ac atebolrwydd o ran materion cyfiawnder.....	39
Data ar droseddu a chyfiawnder.....	40
Cefnogi'r sector cyfreithiol a mynediad at gyfiawnder.....	40
Tribiwnlysoedd Cymru	42
Casgliadau	42
Canfyddiadau a phryderon	42

Llwyddiannau43

Edrych tua'r dyfodol43

Atodiad A: Rhestr o'r sesiynau tystiolaeth lafar44

Atodiad B: Gweithio rhyngseneddol.....47

1. Cyflwyniad

Mae gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad gylch gwaith eang sy'n cwmpasu amrywiaeth o feysydd. Bwriad yr adroddiad blynyddol hwn yw rhoi trosolwg o'r gwaith a wnaed gan y Pwyllgor ers ei sefydlu a hyd at ddiwedd toriad yr haf 2022.

1. Sefydlwyd y Pwyllgor ar 26 Mai 2021¹ i gyflawni swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol fel y'u nodir yn Rheol Sefydlog 21 a Rheol Sefydlog 26C, ac i ystyried unrhyw fater arall yn ymwneud â deddfwriaeth sydd o fewn cymhwysedd y Senedd neu Weinidogion Cymru, neu sy'n gysylltiedig â chymhwysedd y Senedd neu Weinidogion Cymru, gan gynnwys ansawdd deddfwriaeth, datganoli, y cyfansoddiad (gan gynnwys dyfodol cyfansoddiadol Cymru), cyfiawnder, a materion allanol, gan gynnwys newidiadau i'r setliad datganoli (ond heb fod yn gyfyngedig i hynny), a chysylltiadau rhynglywodraethol.

2. Yn ymarferol, golyga hyn fod ein gwaith yn cwmpasu'r meysydd a ganlyn:

- craffu ar is-ddeddfwriaeth yn unol â Rheolau Sefydlog 21.2, 21.3 a 21.7(i);
- craffu ar Filiau o dan Reol Sefydlog 26 o fewn cylch gwaith polisi'r Pwyllgor;
- craffu ar bob Bil arall a gyflwynir i Senedd Cymru ond gan ganolbwyntio ar faterion penodol nad ydynt yn ymwneud â pholisi;
- craffu ar Filiau Cydgrynhai o dan Reol Sefydlog 26C;
- craffu ar femoranda cydsyniad deddfwriaethol, yn unol â Rheol Sefydlog 29, a memoranda cydsyniad offeryn statudol, yn unol â Rheol Sefydlog 30A;
- craffu ar is-ddeddfwriaeth gan Lywodraeth y DU sy'n gwneud darpariaeth mewn meysydd datganoledig a datganiadau ysgrifenedig a osodir yn unol â Rheol Sefydlog 30C;

¹ Yn dilyn penderfyniad yn y Cyfarfod Llawn ar 23 Mehefin 2021, newidiwyd enw'r Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth Dros Dro i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

- craffu ar Orchmynion yn y Cyfrin Gyngor o dan Reolau Sefydlog 25, 27.6A neu 27.7B; ystyried effaith Biliau Llywodraeth y DU a Deddfau Senedd y DU ar ddatganoli a deddfu gan y Senedd;
- craffu ar berthnasau rhynglywodraethol;
- craffu ar gytundebau rhyngwladol;
- goruchwyllo a chraffu ar fframweithiau cyffredin;
- craffu ar y modd y caiff cytundebau rhwng y DU a'r UE, megis y Cytundeb Ymadael a'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu, eu llywodraethu a'u rhoi ar waith;
- cynrychioli'r Senedd ar y Fforwm Rhyngseneddol ac fel sylwedydd ar y Cynulliad Partneriaeth Seneddol a sefydlwyd o dan y Cytundeb Masnach a Chydweithredu;
- craffu ar faterion sy'n gysylltiedig â chyfiawnder o fewn ein cylch gwaith gan gynnwys craffu ar y gyllideb;
- ymchwiliadau polisi yn unol â chylch gwaith y Pwyllgor a gytunwyd gan y Cyfarfod Llawn;
- gwaith rhyngseneddol i rannu gwybodaeth ac arbenigedd â seneddau eraill y DU.

3. Mae'n rhaid cyflawni llawer o'r gwaith craffu hwn yn unol ag amserlenni a therfynau amser a osodir naill ai gan **Reolau Sefydlog** y Senedd neu'r Pwyllgor Busnes. Mae hyn yn cyfyngu ar ein gallu i fod yn rhagweithiol o fewn ein cylch gwaith eang, ac mae ein hyblygrwydd i weithredu'n gyflym yn aml yn dibynnu ar ein llwyth gwaith deddfwriaethol. O ganlyniad i hyn, ar ddechrau'r Chweched Senedd penderfynwyd ystyried papurau (yn breifat) a oedd yn monitro datblygiadau ac yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf er mwyn sicrhau y gallem weithredu ar faterion o bwys sy'n codi o fewn y cylch gwaith eang hwn fel y bo angen. Yn dilyn pob cyfarfod, cyhoeddwyd y papurau hyn fel **adroddiadau monitro**.

4. Rydym hefyd wedi **cyfrannu** at adolygiad y Pwyllgor Busnes o gylchoedd gwaith pwyllgorau, gan dynnu sylw at ba mor eang yw ein cyfrifoldebau ond gan gydnabod bod llawer o'r pynciau yr ydym yn ymdrin â hwy yn cydblethu.

5. Hoffem nodi ein diolch i Mick Antoni AS, y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad (y Cwnsler Cyffredinol), am fod mor barod i ymddangos ger ein bron ac ateb ein cwestiynau yn rheolaidd.

6. Mae'r penodau a ganlyn yn tynnu sylw at y gwaith a wnaed gennym ym mlwyddyn gyntaf y Senedd, gan ganolbwyntio ar ein canfyddiadau a'n pryderon, ein llwyddiannau craffu ac edrych tua'r dyfodol.

2. Gweithgarwch deddfwriaethol

Craffu ar is-ddeddfwriaeth

Y cefndir

7. Yng Nghymru, Gweinidogion Cymru sy'n gyfrifol am wneud is-ddeddfwriaeth gan ddefnyddio pwerau a roddir iddynt mewn deddfau galluogi fel Deddfau'r Senedd, Mesurau'r Cynulliad a Deddfau Senedd y DU. Cyfeirir at is-ddeddfwriaeth fel deddfwriaeth ddirprwyedig hefyd, am fod y Ddeddf alluogi yn dirprwyo'r pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth.
8. Mae'r rhan fwyaf o is-ddeddfwriaeth Cymru a **osodir** gerbron y Senedd yn cael eu gwneud ar ffurf rheoliadau neu orchmynion (mathau o offeryn statudol).
9. Ein rôl yw ystyried is-ddeddfwriaeth yn erbyn meini prawf a nodir yn y manau isod, a chyflwyno adroddiad i'r Senedd arni:
- Rheol Sefydlog 21.2 – mae'n rhaid i ni ystyried y materion hyn a chyflwyno adroddiad arnynt. Gelwir materion a nodir o dan Reol Sefydlog 21.2 yn bwyntiau adrodd technegol ac maent yn ymdrin â materion fel a oes gan Weinidogion Cymru y pŵer i wneud yr is-ddeddfwriaeth dan sylw, pa mor glir yw'r gwaith drafftio ac a yw'n ymddangos ei fod yn ddiffygiol.
 - Rheol Sefydlog 21.3 – cawn ystyried y materion hyn a chyflwyno adroddiad arnynt. Gelwir y materion a nodir o dan Reol Sefydlog 21.3 yn bwyntiau adrodd o ran rhinweddau ac maent yn ymdrin â materion fel pwyntiau sydd o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu rai sy'n codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.

Gwaith craffu dros y flwyddyn ddiwethaf

10. Ym mis Gorffennaf 2021, nodwyd yn glir yn **rhaplen ddeddfwriaethol gyntaf Llywodraeth Cymru ar gyfer y Chweched Senedd** y byddai'r Senedd hon yn bwrw ymlaen â rhaglen gwneud rheoliadau i weithredu deddfwriaeth sylfaenol a basiwyd yn y Seneddau blaenorol. Ar y pryd, **dywedodd** y Cwnsler Cyffredinol:

"Y tymor hwn, mae'n rhaid inni fwrw ymlaen nawr â'r is-ddeddfwriaeth ar gyfer eu gweithredu, na all y Deddfau gael yr effaith a fwriedir hebddyn nhw [ac] fe fyddwn yn cyflwyno pecyn sylweddol o weithredu deddfwriaeth ar gyfer Deddfau pwysig a basiwyd yn y Senedd ddiwethaf."

11. Hyd yn hyn, rydym wedi craffu ar is-ddeddfwriaeth sy'n gweithredu (yn llawn neu'n rhannol) **Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.**

12. Roedd rhywfaint o'r is-ddeddfwriaeth a ystyriwyd gennym hefyd yn ymwneud â phandemig Covid-19, ond i raddau llai na'r hyn y bu'r pwyllgor a'n rhagflaenodd yn craffu arno rhwng 2020 a 2021, gan adlewyrchu natur gyffredinol y pandemig yn y gymdeithas.

13. Rhwng mis Mai 2021 a mis Gorffennaf 2022, gwnaethom adrodd ar 234 o ddarnau o is-ddeddfwriaeth (gan gynnwys 127 a oedd yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol, 23 a oedd yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gwneud cadarnhaol a 52 a oedd yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol drafft). Yn yr un cyfnod yn ystod y Bumed Senedd, cafwyd adroddiadau ar 111 o eitemau o is-ddeddfwriaeth.

14. Wrth i 49 o'r eitemau o is-ddeddfwriaeth a ystyriwyd gael eu gosod gerbron y Senedd, torrwyd y rheol 21 diwrnod, sy'n golygu bod y ddeddfwriaeth wedi dod i rym lai na 21 diwrnod ar ôl iddi gael ei gosod. Roedd bron pob un o'r offerynnau yn ymwneud â phandemig Covid-19. Rhoddir gwybod i'r Llywydd ac i'r Pwyllgor am achosion o dorri'r rheol hon yn unol ag adran 11A(4) o *Ddeddf Offerynnau Statudol 1946* (Deddf 1946). Er enghraifft, gweler **SL(6)013 – Rheoliadau Deddf y Coronafeirws 2020 (Tenantiaethau Preswyl: Estyn Cyfnod Gwarchodaeth Rhag Troi Allan) (Rhif 2) (Cymru) 2021.**

15. At hynny, daeth 11 o'r 49 o eitemau hyn i rym cyn iddynt gael eu gosod hefyd. Rhoddir gwybod i'r Llywydd ac i'r Pwyllgor am achosion o'r fath yn unol ag adran 4(1) o *Ddeddf 1946* hefyd. Er enghraifft, gweler **SL(5)095 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 14) 2021.**

Astudiaeth achos: Craffu ar reoliadau a wnaed o dan Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016

Fel rhan o'n gwaith wrth graffu ar yr holl is-ddeddfwriaeth a osodwyd gerbron y Senedd, gwnaethom graffu ar 15 set o reoliadau a wnaed o dan Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Deddf 2016), sy'n rhoi rheolau newydd ar waith ynghylch rhentu cartrefi yng Nghymru

Rydym yn adrodd ar y seiliau a nodir yn Rheolau Sefydlog 21.2 a 21.3 yn unig.

Er bod Rheol Sefydlog 21.3(ii) yn cyfeirio at 'bolisi cyhoeddus', nid ydym yn craffu ar bolisi. Nid yw hyn yn golygu ein bod yn anwybyddu newidiadau polisi pwysig a gyflwynir gan is-ddeddfwriaeth – rydym yn nodi newidiadau polisi pwysig yn rheolaidd naill ai drwy eu nodi fel pwyntiau adrodd o dan Reol Sefydlog 21.3(ii) neu yn syml drwy eu cynnwys yn yr adran o'n

hadroddiadau sy'n trafod cefndir a diben yr is-ddeddfwriaeth. Fodd bynnag, ni fyddwn byth yn cefnogi nac yn beirniadu unrhyw bolisi. Mater i bwyllgorau polisi perthnasol y Senedd yw craffu ar bolisi. At hynny, caiff y Senedd, yn y pen draw, ddirymu neu ei wrthod unrhyw ddarn o is-ddeddfwriaeth a osodir gerbron iddi (yn dibynnu ar y weithdrefn).

Yn y cyd-destun hwnnw, mae rhai enghreifftiau isod o bwyntiau adrodd a godwyd gennym mewn perthynas â rheoliadau sy'n gweithredu elfennau o Ddeddf 2016.

Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Diogelu Eiddo mewn Anheddau y Cefnwyd Arnynt) (Cymru) 2022

O dan Reol Sefydlog 21.3(ii), gwnaethom ystyried y modd yr oedd y Rheoliadau hyn yn ymdrin ag anifeiliaid anwes/anifeiliaid a adawyd mewn eiddo rhent. Nid yw'r Rheoliadau'n gwneud unrhyw ddarpariaeth benodol ar gyfer anifeiliaid anwes neu anifeiliaid eraill, gan eu trin yn yr un modd ag unrhyw eiddo arall a adawyd mewn eiddo rhent. Gofynnem a ddylai'r Rheoliadau wneud darpariaeth benodol ar gyfer anifeiliaid anwes/anifeiliaid a adawyd.

Yn yr ymateb gan Lywodraeth Cymru, nodwyd bod y mater wedi cael ei godi yn ystod yr ymgynghoriad cychwynnol ar y Rheoliadau. O ran y Rheoliadau eu hunain, roedd Llywodraeth Cymru o'r farn eu bod yn ddigon hyblyg i ymdrin yn ddigonol ag unrhyw anifeiliaid anwes neu anifeiliaid a adawyd mewn eiddo. Fodd bynnag, dywedodd Llywodraeth Cymru hefyd y byddai'n ychwanegu eglurhad yn ei chanllawiau fel bod disgwyliadau pobl yn glir ar y mater hwn.

O dan Reol Sefydlog 21.3(ii), gwnaethom hefyd ofyn i Lywodraeth Cymru egluro rhai materion sy'n ymwneud â chyfraith eiddo. Er enghraifft, pan fydd landlord (yn unol â'r Rheoliadau) yn gwerthu eiddo sydd wedi'i adael mewn annedd ar rent, gwnaethom ofyn i Lywodraeth Cymru egluro sut mae teitl yn yr eiddo y cefnwyd arno yn trosglwyddo o'r perchennog gwreiddiol i'r sawl sy'n prynu'r eiddo y cefnwyd arno?

Ymatebodd Llywodraeth Cymru drwy gyfeirio at ddarpariaethau *Deddf Camweddau (Ymyrraeth â Nwyddau) 1977* sy'n galluogi 'derbyniwr anwirfoddol' (yn yr achos hwn, y landlord) i werthu'r eiddo a adawyd, yn ddarostyngedig i amodau penodol.

Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Gwybodaeth Esboniadol ar gyfer Datganiadau Ysgrifenedig o Gontractau Meddiannaeth) (Cymru) 2022

O dan Reol Sefydlog 21.2(v), gwnaethom nodi ein pryder bod y Rheoliadau hyn yn gamarweiniol o ran swm yr iawndal y byddai'n rhaid i landlordiaid ei dalu, yn benodol y cyfnod y mae landlordiaid yn atebol am dalu iawndal os na fyddant yn rhoi datganiad ysgrifenedig o'r

contract i ddeiliaid contract penodol. Unwaith eto, gwnaethom nodi bod y sefyllfa'n glir yn Neddf 2016 ond nad oedd, yn ein barn ni, wedi ei hadlewyrchu mor glir yn y Rheoliadau.

Yn yr ymateb gan Lywodraeth Cymru, nodwyd bod y Rheoliadau, o'u darllen ochr yn ochr â Deddf 2016, yn glir. Fodd bynnag, roedd hefyd yn cydnabod y gallai'r Rheoliadau fod yn gliriach ac, felly, byddai'r Rheoliadau'n cael eu diwygio "er mwyn rhoi'r mater y tu hwnt i amheuaeth".

Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Datganiadau Ysgrifenedig Enghreifftiol o Contract) (Cymru) 2022

O dan Reol Sefydlog 21.2(v), gwnaethom nodi ei fod yn aneglur lle yr oedd datganiad ysgrifenedig enghreifftiol penodol yn darparu ar gyfer nodi cyfnod y contract. Mae cyfnod y contract yn hollbwysig, ac roeddem o'r farn y dylai datganiad ysgrifenedig enghreifftiol (a baratowyd gan Weinidogion Cymru) fod â gofod clir ar gyfer cynnwys tymor y contract.

Yn yr ymateb gan Lywodraeth Cymru, nodwyd y gellid cynnwys tymor y contract mewn sawl man yn y datganiad ysgrifenedig enghreifftiol. Fodd bynnag, roedd yn derbyn y gallai'r enghraifft fod yn gliriach a dywedodd y caiff hyn ei newid y tro nesaf y nesaf y bydd angen diwygio'r Rheoliadau.

O dan Reol Sefydlog 21.3(ii), gwnaethom nodi bod y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn cyfeirio at yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a wnaed ar gyfer Deddf 2016. Gwnaethom ofyn i Lywodraeth Cymru gadarnhau a oedd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwnnw (a oedd yn 5 oed bellach) yn dal i fod yn sail dda ar gyfer y casgliadau 'costau a manteision' a nodir yn y Memorandwm Esboniadol.

Yn yr ymateb gan Lywodraeth Cymru, dywedodd ei bod yn fodlon "bod y rhesymeg dros nodi costau a manteision cynhyrchu datganiadau ysgrifenedig enghreifftiol a nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a oedd yn mynd gyda Deddf 2016 yn parhau i fod yn gadarn" a bod y "dull a ddefnyddiwyd i gyfrifo'r costau a'r manteision yn parhau i fod yn briodol." Nodwyd hefyd, am fod cymaint o amser wedi mynd heibio ers llunio Asesiad Effaith Rheoleiddiol Deddf 2016, roedd y cyfrifiadau a wnaed yn 2022 wedi'u diwygio i adlewyrchu'r costau presennol.

Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Diwygiadau Canlyniadol) 2022

O dan Reolau Sefydlog amrywiol rhwng 21.2 a 21.3, codwyd 35 pwynt adrodd ar y Rheoliadau hyn fel y'u cyflwynwyd yn wreiddiol. Roedd hyn yn nifer sylweddol iawn o bwyntiau adrodd. Er nad oedd Llywodraeth Cymru yn cytuno â llond llaw o'n pwyntiau adrodd, roedd yn cydnabod bod sawl problem o ran y Rheoliadau, ac yn sgil hynny, tynnodd Llywodraeth Cymru y Rheoliadau gwreiddiol yn ôl a gosod Rheoliadau newydd yn eu lle.

Casgliadau

Mae'r enghreifftiau hyn yn dangos y math o waith craffu a wnaed gennym ar is-ddeddfwriaeth a osodir gerbron y Senedd. Credwn fod y gwaith craffu hwn yn agwedd bwysig ar sicrhau bod gennym gyfraith dda yng Nghymru, ac yn benodol cyfraith sy'n glir ac yn hygyrch.

Nid yw Llywodraeth Cymru yn cytuno â'n pwyntiau adrodd bob amser. Os bydd materion sy'n peri pryder arbennig, gallwn eu trafod ymhellach drwy anfon llythyr at Lywodraeth Cymru. Er enghraifft, gwnaethom ysgrifennu at Lywodraeth Cymru ym mis Chwefror 2022 ynghylch rhai o'i hymatebion i'r pwyntiau adrodd a godwyd gennym ar is-ddeddfwriaeth ynghylch rhentu cartrefi. Mae ein llythyr ni ar gael yma a gellir gweld ymateb Llywodraeth Cymru i'n llythyr yma. Credwn fod yr ohebiaeth hon wedi arwain at ganlyniadau cadarnhaol a gwneud y drefn rhentu cartrefi yng Nghymru yn gliriach, sef rhywbeth yr oedd mawr ei angen.

Rydym bob amser yn ymwybodol o'r ffaith nad oes gennym feto dros is-ddeddfwriaeth (dim ond y Senedd a gaiff ddirymu neu wrthod is-ddeddfwriaeth) ac ni allwn ddatgan bod is-ddeddfwriaeth yn anghyfreithlon (mater i'r llysoedd yw hynny). Ein gwaith ni yw craffu o fewn y Rheolau Sefydlog perthnasol.

O ran llawer o'r pwyntiau a nodir gennym, mae Llywodraeth Cymru yn derbyn neu'n cydnabod bod problemau y mae angen gweithredu arnynt, fel: (i) tynnu darn o is-ddeddfwriaeth yn ôl a'i ail-ddrafftio cyn ei ail-osod,² (ii) diwygio darn o is-ddeddfwriaeth yn ddiweddarach, neu (iii) diweddarau canllawiau er mwyn egluro unrhyw fater penodol.

Credwn ein bod ni a Llywodraeth Cymru yn rhannu'r un nod y dylai is-ddeddfwriaeth yng Nghymru fod mor glir a hygyrch â phosibl.

Craffu ar Filiau

Y cefndir

16. Fel rhan o'n cylch gwaith cyffredinol, rydym yn ystyried unrhyw fater sy'n ymwneud â deddfwriaeth. Mae ein gwaith craffu cyffredinol ar Filiau, yn unol â'n cylch gwaith, yn canolbwyntio ar nifer o faterion penodol:

² Ar yr amod bod yr is-ddeddfwriaeth yn dal i fod ar ffurf ddrafft. Os yw'r deddfwriaeth wedi'i gwneud ac nad yw ar ffurf ddrafft mwyach, nid oes ffordd syml o'i thynnu'n ôl (rhaid ei diwygio neu ei ddirymu drwy deddfwriaeth newydd).

- materion sy'n ymwneud â chymhwysedd deddfwriaethol gan gynnwys cydymffurfiaeth â hawliau dynol;
- yr angen am ddeddfwriaeth;
- y cydbwysedd rhwng y darpariaethau ar wyneb y Bil a'r hyn a ddirprwyir i Weinidogion Cymru ei wneud drwy is-ddeddfwriaeth, a'r weithdrefn sydd ynghlwm wrth bob pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth;
- yr angen i gydgrynhoi (os yw'n berthnasol) a materion eraill sy'n ymwneud â hygyrchedd y llyfr statud;
- ansawdd cyffredinol y ddeddfwriaeth.

Gwaith craffu dros y flwyddyn ddiwethaf

17. Hyd yn hyn rydym wedi cwblhau ein gwaith craffu ar ddau Fil a gyflwynwyd i'r Senedd gan Lywodraeth Cymru - y **Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru)** a **Bil Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu)**.

18. Gwnaethom 40 o argymhellion mewn perthynas â'r ddau Fil hyn. Isod, nodir rhai o'r themâu a'r materion o bwys sydd eisoes wedi dod i'r amlwg wrth i ni graffu ar Filiau:

- ein cred bod angen i'r gweithdrefnau craffu sy'n gysylltiedig â rhai pwerau dirprwyedig fod yn fwy cadarn gan nad ydynt yn rhoi digon o gyfle i Aelodau'r Senedd gyflawni gwaith craffu;
- ein cred bod gormod o ogwydd o blaid grym gweithredol yn y ddeddfwriaeth, a bod hynny'n bwrw mandad democrataidd y Senedd i'r ymylon;
- pwerau dirprwyedig sydd wedi'u cynnwys am resymau hyblygrwydd a pharatoi at y dyfodol, ond nad ydynt yn briodol yn ein barn ni, o safbwynt deddfu da, os nad yw'r llywodraeth bresennol yn bwriadu defnyddio'r pwerau hynny;
- pryderon am esboniadau nad ydynt yn cynnwys gwybodaeth / anefnyddiol gan Lywodraeth Cymru ynglŷn â goblygiadau posibl i hawliau dynol. Mae esboniadau o'r fath yn ddiwerth ac yn rhwystro gwaith craffu deddfwriaethol effeithiol. Mae'n siomedig hefyd yng nghyd-destun nod y Senedd o sicrhau bod y gyfraith yng Nghymru yn amddiffyn hawliau dynol.

19. Cyflwynwyd dau Fil arall i'r Senedd yn ystod tymor yr haf. Yn ddiweddar, rydym wedi dechrau trafod y **Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru)**. Yn unol

â'n cylch gwaith y cytunwyd arno, ni hefyd yw'r pwyllgor cyfrifol ar gyfer Biliau Cydgrynhoi, y cyflwynwyd y cyntaf ohonynt, sef y **Bil Amgylchedd Hanesyddol (Cymru)**, i'r Senedd yn ddiweddar. Rydym yn disgwyl adrodd ar y ddau Fil hyn yn ystod tymor yr hydref.

Biliau Llywodraeth y DU sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer Cymru mewn meysydd datganoledig (Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol)

Y cefndir

20. Fel rhan o'n cylch gwaith cyffredinol, rydym yn ystyried unrhyw fater sy'n ymwneud â deddfwriaeth. Un agwedd ar y cyfrifoldeb eang hwn yw ystyried yr holl femoranda cydsyniad deddfwriaethol a osodir gerbron Senedd Cymru gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Biliau Llywodraeth y DU sy'n gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at unrhyw ddiben o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd (neu sy'n addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd).

Gwaith craffu dros y flwyddyn ddiwethaf

21. Mae craffu ar femoranda cydsyniad deddfwriaethol a memoranda cydsyniad deddfwriaethol atodol wedi cyfrif am gyfran helaeth o'n rhaglen waith. Ers Mai 2021, rydym wedi ystyried 44 o femoranda cydsyniad deddfwriaethol a memoranda cydsyniad deddfwriaethol atodol yn ymwneud â 21 o Filiau'r DU, ac rydym wedi llunio 30 o adroddiadau.

22. Ar hyd y Bumed Senedd, ystyriodd y pwyllgor a'n rhagflaenodd 48 o femoranda cydsyniad deddfwriaethol a memoranda cydsyniad deddfwriaethol atodol yn ymwneud â 32 o Filiau'r DU, a lluniodd 33 o adroddiadau.

23. Fodd bynnag, nid yw nifer y memoranda cydsyniad deddfwriaethol a drafodir gennym neu'r adroddiadau a gyhoeddir gennym yn rhoi'r darlun llawn; er enghraifft, roedd y memoranda cydsyniad deddfwriaethol a osodwyd gan Lywodraeth Cymru yn ystod saith mis cyntaf y Chweched Senedd yn cwmpasu llawer mwy o gymalau ac atodlenni na'r hyn a gafwyd mewn memoranda cydsyniad deddfwriaethol yn ystod blwyddyn gyntaf y Bumed Senedd.³

24. Mae hyn yn dangos y bu cynnydd sylweddol o ran y deddfwriaeth sylfaenol sy'n ymwneud â meysydd datganoledig a wneir gan Senedd y DU yn hytrach na'r Senedd.

25. Yn ystod ein gwaith craffu, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu gwybodaeth am yr **egwyddorion** sydd wrth wraidd ei phenderfyniadau mewn perthynas â chynnwys

³ Ymchwil y Senedd, Cydsyniad deddfwriaethol yn y Chweched Senedd: y stori hyd yn hyn, 13 Rhagfyr 2021

darpariaethau ym Miliâu Llywodraeth y DU a'i **chanllawiau** ar wahân i'w staff ar gynnwys pwerau cydredol mewn Biliau o'r fath. Y ddwy egwyddor gyntaf yw:

"1. Rydym yn dilyn yr egwyddor y dylai deddfwriaeth sylfaenol mewn meysydd datganoledig gael ei deddfu gan Senedd Cymru. Fodd bynnag, mae'n anorffod bod rhai amgylchiadau, a bydd hynny'n parhau, lle mae'n synhwyrol ac yn fanteisiol bod darpariaeth a fyddai o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd yn cael ei cheisio ar gyfer Cymru ym Miliâu Senedd y DU, gyda chydysyniad Senedd Cymru. Yn bur aml bydd darpariaeth o'r fath yn golygu rhoi pwerau dirprwyedig newydd i Weinidogion Cymru.

2. Mae cymryd darpariaeth mewn Bil gan y DU yn gallu golygu y gellir sicrhau atebion pragmataidd mewn modd amserol, gan barchu cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd yr un pryd drwy'r broses cydsyniad deddfwriaethol. Gall fod yn fater o lywodraethu ymarferol da i ddarpariaethau o'r fath gael eu cynnwys mewn Bil gan y DU."

26. Amlinellwyd deddfwriaeth arfaethedig Llywodraeth y DU ar gyfer y sesiwn seneddol nesaf yn Araith y Frenhines ddydd Mawrth 10 Mai, ac roedd yn cynnwys 38 o Filiau. Er na fydd pob un effeithio ar Gymru, bydd llawer ohonynt yn gwneud hynny. **Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud** ei bod yn disgwyl cael cais am gydsyniad ar gyfer o leiaf 12 o Filiau'r DU. Ar wahân i hynny, mae Ysgrifennydd Gwladol Cymru wedi **dweud** bod 27 o Filiau'r DU yn debygol o fod yn gymwys i Gymru.

27. Ar ddiwedd mis Gorffennaf 2022, roedd memoranda cydsyniad deddfwriaethol wedi'u gosod ar gyfer chwech o'r 12 o Filiau'r DU (y mae dau ohonynt yn Filiau sydd wedi eu dwyn ymlaen o sesiwn flaenorol Senedd y DU):

- y **Bil Lles Anifeiliaid (Anifeiliaid a Gedwir)** (Bil sydd wedi ei ddwyn ymlaen);
- y **Bil Diogelwch Ar-lein** (Bil sydd wedi'i ddwyn ymlaen);
- y **Bil Caffael**;
- y **Bil Masnach (Awstralia a Seland Newydd)**;
- **Bil Banc Seilwaith y DU**;
- y **Bil Ysgolion**

28. Bydd llawer o'r Biliau sydd wedi'u cynnwys yn Araith y Frenhines, gan gynnwys y Bil Caffael, yn diddymu ac yn disodli deddfwriaeth yr UE.

29. Rydym yn cydnabod nad yw pob memoranda cydsyniad deddfwriaethol yr un fath. Rydym wedi nodi tri chategori eang ar sail ein gwaith craffu:

- achosion lle gallai fod rhesymau digonol a phriodol i Lywodraeth y DU gael caniatâd y Senedd i ddeddfu mewn meysydd datganoledig;
- achosion lle mae Llywodraeth bresennol y DU yn ceisio, ac wedi bod yn ceisio, deddfu mewn meysydd sydd wedi'u datganoli yn groes i ddymuniadau Llywodraeth Cymru;
- memoranda sy'n adlewyrchu dull Llywodraeth Cymru o ganiatáu i Lywodraeth y DU fwrw ymlaen â deddfwriaeth ar ei rhan, lle y credwn mai'r Senedd a ddylai fod yn deddfu.

30. Dim ond ar achlysuron prin y byddwn ni'n argymhell rhoi neu wrthod cydsyniad ar gyfer un o Filiau Llywodraeth y DU. Yn y pen draw, mater i'r Senedd gyfan yw'r penderfyniad hwnnw.

31. Wrth drafod memoranda cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer Biliau Llywodraeth y DU rydym wedi gwneud 73 o argymhellion. Isod nodir rhai o'r themâu a'r materion o bwys:

- ein pryder ynglŷn â'r graddau y mae Llywodraeth y DU bellach yn ceisio deddfu mewn meysydd datganoledig, sy'n atal Aelodau o'r Senedd rhag trafod tystiolaeth gan randdeiliaid a chyflwyno gwelliannau i brofi, herio a dylanwadu ar ddeddfwriaeth sy'n effeithio ar Gymru;
- memoranda cydsyniad deddfwriaethol sydd wedi'u drafftio'n wael, sy'n anghyflawn neu'n anghywir sy'n golygu bod y Senedd o dan anfantais wrth geisio cyflawni ei gwaith craffu hanfodol;
- prydlondeb (neu ddiffyg prydlondeb) memoranda cydsyniad deddfwriaethol sy'n cael eu gosod gerbron y Senedd;
- pwerau cydredol sy'n arwain at effaith ar gymhwysedd datganoledig i bob pwrpas;
- Pwerau Harri VIII i ddiwygio *Deddf Llywodraeth Cymru 2006*;
- dibyniaeth ar gytundebau rhynglywodraethol nad ydynt yn rhwymo yn hytrach na sicrhau diwygiadau ar wyneb Biliau'r DU;

- diffyg tryloywder ynghylch sut y gall Biliau'r DU ryngweithio â rhwymedigaethau rhyngwladol, fframweithiau cyffredin a threfniadau eraill ar ôl Brexit.

32. Mae ein gwaith craffu cyffredinol wedi tynnu sylw at y modd y mae Llywodraeth Cymru wedi cymhwyso a dehongli ei hegwyddorion arweiniol ar gyfer deddfu drwy Filiau Llywodraeth y DU.

- Mewn gohebiaeth dyddiedig **20 Ebrill 2022**, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol wrthym:

"Sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i bobl Cymru, yn unol â'n blaenoriaethau, yw ein nod wrth ystyried deddfwriaeth. Felly, rydym yn penderfynu beth yw'r ffordd orau o wneud hynny drwy ddeddfwriaeth y Senedd a Senedd y DU, gan ystyried blaenoriaethau a chapasiti ein rhaglen ddeddfwriaethol ein hunain a hefyd y cyfleoedd a'r risgiau posibl sy'n deillio o raglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU.

Pe na baem ond yn cyflawni ein blaenoriaethau drwy ddeddfwriaeth y Senedd, yn hytrach na mynd ar drywydd set ehangach o flaenoriaethau drwy'r ddwy raglen ddeddfwriaethol, byddem yn cyflawni llai ar gyfer pobl Cymru."

- **Mewn datganiad ar 13 Mai 2022**, yn dilyn Araith y Frenhines, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol y dylai "deddfwriaeth sylfaenol mewn meysydd sydd wedi'u datganoli gael ei deddfu fel arfer gan Senedd Cymru". Fodd bynnag, yn nogfen wreiddiol Llywodraeth Cymru sy'n cynnwys yr egwyddor gyfatebol, ni ddefnyddir y geiriau "fel arfer". Awgrymodd y Cwnsler Cyffredinol mai mater o ddrafftio yn unig oedd hyn ac ategodd ei ymrwymiad parhaus mai yng Nghymru y dylid deddfu.⁴
- Yn y datganiad hwnnw, dywedodd hefyd y "byddwn yn ystyried defnyddio Bil gan Senedd y DU pan fydd hynny'n golygu y gellid newid y gyfraith yn gyflymach nag y gallem gyflawni newid o'r fath drwy ein rhaglen ddeddfwriaethol ein hunain, neu pan fo'n synhwyrol bod y gyfundrefn reoleiddio yn cydweddu yng Nghymru a Lloegr." Pan gafodd ei holi am ddefnyddio Bil Llywodraeth y DU er mwyn pasio deddfwriaeth yn gyflym, dywedodd:

"as far as I'm aware, I think every experience I have is that those circumstances have only arisen where legislation has already been initiated

⁴ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, **Cofnod y Trafodion [66]**, 20 Mehefin 2022

and we have to deal with it in one way or another, either through the LCM process or through negotiations and so on ...

... The reality is, though, that if they [UK Government] are legislating and there's an opportunity there, that they are doing something in England and they have said, 'This is only going to apply to England', would it be reasonable or unreasonable to turn around and say, 'Well, actually, we haven't got this on our agenda, we don't want to divert resources from other parts of our programme, and we do not have an objection if that became England and Wales'.⁵

- Mewn gohebiaeth dyddiedig 4 Awst 2022, wrth ymateb i'r cwestiwn: "A yw hyn yn golygu y bydd Llywodraeth Cymru, i bob pwrpas, yn dyrannu adnoddau i nifer benodol o Filiau ac yna'n manteisio ar y cyfleoedd a gyflwynir iddi i ddefnyddio Biliau'r DU i gyflawni amcanion deddfwriaethol eraill nad ydynt eisoes wedi'u nodi (neu nad ydynt wedi'u blaenoriaethu)?", dywedodd y Cwnsler Cyffredinol:

"Ydy, i'r graddau y mae ein rhaglen deddfwriaethol wedi'i chynllunio i gyflawni uchelgeisiau'r Rhaglen Lywodraethu, ac felly mae'n anochel ein bod yn ceisio sicrhau bod capasiti yn ei le i gefnogi'r gwaith hwnnw. Roedd ein hegwyddorion yn nodi, pan fyddai deddfwriaeth y DU yn briodol i Gymru ond nad oes amser i gyflwyno'i thebyg yn y Senedd, y byddem yn ystyried defnyddio un o Filiau'r DU. Mae hwn yn safbwynt ymarferol, sy'n sicrhau ein bod yn cyflawni dros bobl Cymru ac yn defnyddio'r adnodd a'r cyfleoedd sydd ar gael yn y modd gorau. Fodd bynnag, fel y nodwyd uchod, nid yw Llywodraeth Cymru fel arfer yn mynd at Lywodraeth y DU yn bwrpasol i geisio darpariaethau datganoledig ym Miliau'r DU."⁶

Cytundebau rhynglywodraethol

33. Daeth y pwyllgor a'n rhagflaenodd i'r casgliad yn ei adroddiad gwaddol y dylem barhau i fonitro'r defnydd o gytundebau rhynglywodraethol rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU sy'n ymwneud â Biliau Llywodraeth y DU y gofynnir i'r Senedd gydsynio iddynt (casgliad 9). Gwnaethon drafod papur academiaidd ar y materion hyn ym mis Mehefin 2022.

34. Roedd casgliad 10 yn adroddiad gwaddol y pwyllgor a'n rhagflaenodd yn awgrymu y dylem sicrhau bod Llywodraeth nesaf Cymru yn darparu diweddariadau rheolaidd i'r Senedd ar

⁵ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Cofnod y Trafodion [70-71], 20 Mehefin 2022

⁶ Gweler hefyd lythyr y Cwnsler Cyffredinol ar 17 Mehefin 2022.

nifer y cytundebau rhynglywodraethol sy'n ymwneud â gweithrediad darnau o ddeddfwriaeth sylfaenol, sut y maent yn cael eu defnyddio a phryd y dylid eu hadolygu.

35. Ar **19 Gorffennaf 2022**, ysgrifennom at y Cwnsler Cyffredinol yn gofyn i'r wybodaeth berthnasol gael ei chyhoeddi yn unol â'r Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol (gweler Pennod 3). Yn ei ymateb, dyddiedig **5 Medi 2022**, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol y bydd yn sicrhau bod y wybodaeth hon yn cael ei darparu.

Capasiti Llywodraeth Cymru i ddeddfu

36. Fel rhan o'n gwaith i graffu ar weithgarwch deddfwriaethol Llywodraeth Cymru, gwnaethom gytuno i wneud gwaith ar allu Llywodraeth Cymru i ddeddfu, yn bennaf mewn ymateb i ddefnydd Llywodraeth Cymru o Filiau Llywodraeth y DU i ddeddfu mewn meysydd datganoledig a chyfeiriadau cyson at adnoddau wrth egluro'r rhesymeg dros wneud hynny.⁷

37. Yn ein cyfarfod ar 29 Tachwedd 2021, tynnodd y Cwnsler Cyffredinol ein sylw at raddfa'r gofynion deddfwriaethol ar Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'i rhaglen waith deddfwriaethol ei hun, gan gynnwys ei rhaglen ar gyfer gwella hygyrchedd cyfraith Cymru; deddfu ar gyfer Brexit; deddfu ar gyfer Covid; ac ymateb i raglen deddfwriaethol Llywodraeth y DU. Tynnodd y Cwnsler Cyffredinol ein sylw hefyd at natur hynod fedrus yr arbenigedd sydd ei angen i gyflawni'r gofynion hyn.⁸ O ganlyniad, gwnaethom **ofyn am ragor o wybodaeth** gan Lywodraeth Cymru ynglŷn â'r capasiti i ddeddfu fel rhan o'n gwaith craffu ar y gyllideb a gwnaethom dri argymhelliad ar y mater hwn yn ein **hymateb dilynol i'r gyllideb**. Rhoddodd Llywodraeth Cymru rai **sylwadau cyffredinol** ac **ymateb** i'n hargymhellion.

Cydsyniad Llywodraeth Cymru ar gyfer is-ddeddfwriaeth a wnaed gan Lywodraeth y DU

Y cefndir

38. Mae ein cylch gwaith yn cynnwys ystyried is-ddeddfwriaeth a wneir gan Lywodraeth y DU mewn meysydd datganoledig. Mae hyn yn cynnwys:

- craffu ar femoranda cydsyniad offeryn statudol Llywodraeth Cymru; megis memoranda sy'n ymwneud ag is-ddeddfwriaeth a wneir gan Weinidogion y DU sy'n diwygio deddfwriaeth sylfaenol sy'n gwneud darpariaeth o fewn cymhwysedd

⁷ Er enghraifft: tystiolaeth gan Julie James AS, y Gweinidog Newid Hinsawdd, **Cofnod y Trafodion [17, 48-49]**, 12 Gorffennaf 2021; tystiolaeth gan y Cwnsler Cyffredinol, **Cofnod y Trafodion** [nifer o gyfeiriadau], 20 Medi 2021 a gohebiaeth oddi wrth y Gweinidog Newid Hinsawdd ar **16 Tachwedd 2021** a **4 Ionawr 2022**.

⁸ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, **Cofnod y Trafodion [18, 34 a 94]**, 29 Tachwedd 2021

deddfwriaethol y Senedd ac y mae angen cydsyniad y Senedd (Rheol Sefydlog 30A) yn ei chylch;

- ystyried datganiadau ysgrifenedig Llywodraeth Cymru sy'n hysbysu'r Senedd ei bod wedi cydsynio i wneud offerynnau statudol gan Weinidogion y DU mewn meysydd datganoledig o dan *Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018* (Rheol Sefydlog 30C).

39. Yn ogystal â'r gwaith y byddwn yn ei gyflawni yn unol â Rheolau Sefydlog, ystyried hysbysiadau Llywodraeth Cymru sy'n nodi ei bod yn bwriadu cydsynio i Lywodraeth y DU arfer pŵer deddfwriaethol dirprwyedig mewn maes datganoledig mewn perthynas â Chymru. Rhoddir hysbysiadau o'r fath i'r Pwyllgor yn unol ag ymrwymiad y Prif Weinidog, a roddwyd ym mis Tachwedd 2021, y tynnir sylw ato yn ein hadroddiad ar y **Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol** (gweler paragraffau 72 a 73).

Gwaith craffu dros y flwyddyn ddiwethaf

40. Mae Llywodraeth Cymru wedi cydsynio i'r nifer a ganlyn o Offerynnau Statudol Llywodraeth y DU (ac wedi rhoi gwybod i ni amdanynt):

- Memoranda cydsyniad offeryn statudol Rheol Sefydlog 30A = 0
- Hysbysiadau Rheol Sefydlog 30C = 11
- Pob hysbysiad arall ynghylch cydsyniad = 28

41. Trafodir hysbysiadau cydsyniad sy'n ymwneud â chydsynio i Lywodraeth y DU arfer pŵer deddfwriaethol dirprwyedig mewn maes datganoledig mewn perthynas â Chymru ym Mhennod 3.

Cymhlethdod deddfu i Gymru

Y cefndir

42. Mae'n gymhleth gwneud cyfreithiau a chraffu arnynt yn y Chweched Senedd. Mae cyflwyno'r model cadw pwerau ac ymadawiad y DU â'r UE wedi ail-lunio cwmplas pwerau datganoledig. Yn y cyfamser, mae Llywodraeth y DU wedi deddfu'n helaeth mewn meysydd datganoledig ac wedi ymrwymo i rwymedigaethau rhyngwladol newydd y mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru gydymffurfio â hwy.

43. Rydym wedi mabwysiadu a datblygu dulliau newydd o graffu er mwyn ystyried y cymhlethdodau hyn. Fodd bynnag, bu'n anodd deall eu goblygiadau cronrus ar adegau.

Gwaith craffu dros y flwyddyn ddiwethaf

44. Er mwyn llywio ein gwaith ar y mater hwn, gwahoddwyd nifer o arbenigwyr i ddigwyddiad ar 13 Mehefin 2022 i drafod:

- effaith ymadawriad y DU â'r UE ar gymhlethdod y dirwedd gyfreithiol yng Nghymru, ac yn y DU yn ehangach, ac
- effaith Llywodraeth y DU yn deddfu mewn meysydd datganoledig ar hygyrchedd y gyfraith yng Nghymru.

45. Gwnaethom gyhoeddi **crynodeb o'r drafodaeth**, a nodir y prif gasgliadau isod:

- Nid yw Cymru yn ddarostyngedig i system fwy sefydlog yr UE mwyach, sy'n seiliedig ar reolau. Yn lle hynny, rydym yn ymwneud yn bennaf â materion cymhwysedd deddfwriaethol ac mae mwy o ddibyniaeth ar gytundebau a phrosesau rhynglywodraethol anneddfwriaethol.
- Mae gadael yr UE wedi golygu bod y disgwyliadau yn llai sefydlog erbyn hyn, ac yn anos eu rhagweld, o ran y meysydd lle y dylid deddfu ar gyfer Cymru. Mae tueddiadau'n dod i'r amlwg. Fodd bynnag, nid yw'n glir a yw'r tueddiadau hyn yn gysylltiedig â'r broses o adael yr UE neu a fyddant yn dod i gynrychioli newid tymor hwy.
- Er bod gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ddulliau polisi gwahanol iawn o ymwahanu â'r UE, yn ymarferol mae Llywodraeth y DU yn pasio deddfwriaeth helaeth mewn meysydd datganoledig. Gall dull anghydlynol o gysoni ac ymwahanu yn y gyfraith yng Nghymru ddatblygu yn sgil hyn.
- Mae angen newid y dull o graffu mewn ymateb i'r cymhlethdod cynyddol hwn. Awgrymodd y cyfranogwyr fod y cyfnod hwn o newid yn gyfle i ail-fframio prosesau craffu, ond cydnabuwyd y byddai hyn yn heriol yng nghyd-destun adnoddau seneddol cyfyngedig.
- Cydnabu'r cyfranogwyr fod cymhlethdod y setliad datganoli a'r dirwedd gyfansoddiadol y tu allan i'r UE yn peri problemau o ran hygyrchedd y gyfraith. Er bod cymhlethdod yn anochel i raddau, roedd y cyfranogwyr yn gyffredinol yn teimlo bod y sefyllfa wedi gwaethygu.

Casgliadau

Canfyddiadau a phryderon

- 46.** Mae'r ffaith bod ein cylch gwaith mor eang yn heriol, yn anad dim oherwydd faint o ddeddfwriaeth yr oeddem yn disgwyl craffu arni yn y flwyddyn gyntaf.
- 47.** Yn sicr, mae maint yr is-ddeddfwriaeth yr ydym wedi craffu arni o dan Reol Sefydlog 21 wedi cynyddu o gymharu â blwyddyn gyntaf y Bumed Senedd. Gellir priodoli hynny i'r ffaith bod Llywodraeth Cymru yn awyddus i roi deddfwriaeth sylfaenol ar waith yn llawn a basiwyd yn y Seneddau blaenorol ac, yn rhannol, at fesurau Covid pellach.
- 48.** Nid oeddem wedi disgwyl y byddem yn treulio cymaint o amser yn ystod blwyddyn gyntaf y Chweched Senedd yn adrodd ar femoranda cydsyniad deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer Biliau Llywodraeth y DU ac yn mynegi pryder ynghylch y graddau y mae Llywodraeth y DU yn deddfu mewn meysydd datganoledig, yn enwedig pan fo'n gwneud hynny o dan amgylchiadau lle y mae ganddi gefnogaeth Llywodraeth Cymru a phan rydym ni o'r farn mai'r Senedd a ddylai fod yn deddfu. Felly, rydym wedi treulio cryn dipyn o amser yn adrodd ar ddeddfwriaeth sy'n cael ei gwneud gan Senedd y DU nad oes gennym unrhyw gyfle mewn gwirionedd i ddylanwadu arni na'i llunio. O'r herwydd, mae gwaith craffu deddfwriaethol ar faterion pwysig o fewn meysydd datganoledig yn cael ei gyflawni yn y ddeddfwrfa honno, yn hytrach na'r Senedd, a dim ond un cyfle a gaiff Aelodau o'r Senedd, i bob pwrpas, i bleidleisio ar y ddeddfwriaeth derfynol drwy gynnig cydsyniad deddfwriaethol. Mae hyn wedi bod yn rhwystredig. Byddai'n llawer gwell gennym fod wedi cyfrannu at wella deddfwriaeth a oedd yn cael ei gwneud yn y Senedd, fel ffordd o sicrhau'r atebion gorau posibl i gymunedau ar draws Cymru, sef y rôl y caiff Aelodau o'r Senedd eu hethol i'w chyflawni.
- 49.** Mae hyn hefyd yn tynnu sylw at un o'r problemau gyda'r broses cydsyniad deddfwriaethol: nid oes rôl i'r Senedd ddylanwadu ar benderfyniad Llywodraeth Cymru ynghylch a ddylai ddilyn darpariaethau drwy Fil Llywodraeth y DU yn y lle cyntaf.
- 50.** Gwnaethon godi nifer o'n pryderon yn ystod sesiwn graffu ddiwedd y flwyddyn gyda'r Cwnsler Cyffredinol ar 20 Mehefin 2022 ac mewn gohebiaeth ddilynol.⁹
- 51.** Rydym yn cydnabod ei bod yn briodol defnyddio Biliau Llywodraeth y DU i deddfu mewn meysydd sydd wedi'u datganoli mewn rhai achosion. Fodd bynnag, yn ein barn ni mae rhai o'r

⁹ Gweler y llythyrau dyddiedig 30 Mehefin 2022 a 4 Awst 2022

sylwadau a nodwyd gennym ym mharagraff 32 uchod yn anghyson â brawddeg gyntaf Llywodraeth Cymru wrth drafod ei hegwyddor graidd, ac yn groes i'r egwyddor honno, sef mai'r Senedd a ddylai fod yn deddfu deddfwriaeth sylfaenol mewn meysydd datganoledig.

52. Nodwn ail frawddeg yr egwyddor graidd gyntaf; yn ein barn ni mae'n darparu eithriad cyffredinol i'r frawddeg gyntaf gan ei bod yn cyfeirio at "amgylchiadau ...lle mae'n synhwyrol ac yn fanteisiol" defnyddio Bil Llywodraeth y DU, heb roi unrhyw gyd-destun o ran y pwy mae'r ymadrodd hwnnw'n berthnasol iddo a phwy felly fyddai'n gwneud y penderfyniad hwnnw. Gellid dadlau ei bod yn tanseilio effaith y frawddeg gyntaf fel egwyddor graidd y mae Llywodraeth Cymru'n seilio ei dull gweithredu arni. Mae ein profiad ni'n awgrymu y defnyddiwyd Biliau Llywodraeth y DU i gyflwyno cyfraith newydd i Gymru mewn meysydd datganoledig yn amlach na'r hyn a nodir yn y rhestr o enghreifftiau a roddir ym mhwynt 3 o'r egwyddorion. At hynny, mae pwynt 4 o'r egwyddorion (sy'n nodi, y "byddai'n annoeth iawn i Lywodraeth Cymru fabwysiadu trefn hunanwadu (self-denying ordinance) mewn amgylchiadau o'r fath" hefyd yn cael yr effaith o danseilio brawddeg gyntaf yr egwyddor graidd gyntaf.

53. Fel y nodwn uchod, credwn y dylai rhai o'r darpariaethau datganoledig sydd wedi'u cynnwys ym Miliau Llywodraeth y DU fod wedi eu cynnwys mewn Biliau a gyflwynwyd i'r Senedd gan Lywodraeth Cymru (er enghraifft mewn perthynas â'r amgylchedd, diwygio lesddaliadau a diogelwch adeiladau). O gofio sylwadau'r Cwnsler Cyffredinol nad yw adnoddau na chapasiti yn broblem wrth benderfynu a ddylid defnyddio Bil Llywodraeth y DU i ddeddfu mewn maes datganoledig,¹⁰ ni welwn unrhyw reswm pam na all Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ddeddfu'n gyfochrog. Byddai hyn yn dal i ganiatáu cydweithio rhwng llywodraethau (pan fo hynny'n briodol) a hefyd i'r Senedd ymgymryd â'i rôl graffu deddfwriaethol.

54. Rydym wedi nodi hefyd fod Llywodraeth Cymru wedi awgrymu ar adegau y defnyddiwyd Bil Llywodraeth y DU am fod modd i Lywodraeth y DU gyflwyno deddfwriaeth i Senedd y DU lawer ynghynt na fyddai amserlen y Senedd wedi ei chaniatáu.¹¹ Yn ein hadroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Diwygio Cyfraith Lesddaliad (Rhent Tir), gwnaethom ddweud:

"Mae penderfyniadau ynghylch pryd i gyflwyno deddfwriaeth ar gyfer gwaith craffu yn y Senedd yn fater i Lywodraeth Cymru ac ar ôl i Fil gael ei gyflwyno, bydd amserlen ar gyfer craffu yn cael ei phennu gan y Pwyllgor Busnes yn

¹⁰ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Cofnod y Trafodion [41-54], 20 Mehefin 2022

¹¹ Gweler er enghraifft: Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Diwygio Cyfraith Lesddaliad (Rhent Tir) paragraff 84; Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Caffael, 9 Mehefin 2022, paragraff 118; Llythyr oddi wrth y Cwnsler Cyffredinol, 4 Awst 2022

unol â Rheol Sefydlog 26. Rydym o'r farn ei bod yn amhriodol i Lywodraeth Cymru ddefnyddio dadleuon sy'n ymwneud ag amserlen Senedd Cymru ar gyfer craffu i gyfiawnhau defnyddio Bil Llywodraeth y DU i ddeddfu mewn maes datganoledig.”¹²

55. Ategwn y farn honno a byddwn yn tynnu sylw'r Pwyllgor Busnes at hyn.

56. Rydym yn pryderu y gallai parhau i ddefnyddio Biliau Llywodraeth y DU i ddeddfu mewn meysydd datganoledig, mewn rhai meysydd polisi, ddod yn arfer cyffredin a rheolaidd. Mae hyn yn arbennig o wir yn sgil sylwadau'r Cwnsler Cyffredinol o ran “mynd ar drywydd set ehangach o flaenoriaethau drwy'r ddwy raglen ddeddfwriaethol”, “defnyddio Bil y DU pan ellir newid y gyfraith yn gyflymach” a phan fydd cyfle'n codi i ddeddfu ar sail Cymru a Lloegr ac nid yw Llywodraeth Cymru'n gwrthwynebu gwneud hynny. Ar ben hynny, yn ei lythyr atom ar 4 Awst 2022, mae'r Cwnsler Cyffredinol yn nodi os yw Llywodraeth y DU yn deddfu ar fater sydd y tu allan i raglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru ond o fewn maes datganoledig, yna mae amgylchiadau lle y byddai'n briodol defnyddio Bil Llywodraeth y DU. Mae hyn yn codi rhagor o gwestiynau pwysig y byddwn yn parhau i fynd i'r afael â hwy.

57. Yn gyffredinol felly, rydym yn pryderu bod gormod o ddeddfwriaeth mewn meysydd datganoledig yn cael ei gwneud yn Senedd y DU yn dilyn sgysiau y tu ôl i'r llenni rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, gan osgoi swyddogaethau craffu deddfwriaethol y Senedd.

58. Yn y pen draw, nid oes ots a yw Llywodraeth Cymru yn mynd ati'n fwriadol i geisio darpariaethau datganoledig drwy Filiau Llywodraeth y DU neu a yw Llywodraeth y DU yn cynnwys darpariaeth mewn Bil mewn maes datganoledig heb unrhyw ymgynghoriad, gan mai'r un yw'r effaith, sef creu diffyg democrataidd ôl-ddatganoli.¹³

59. Mae'n ymddangos y bydd y dull hwn yn parhau, ac os yw hynny'n digwydd, mae perygl y gallai danseilio'r Senedd fel deddfwrfa ac egwyddorion craidd datganoli.

60. Ym mlwyddyn gyntaf y Senedd, o gofio mai dim ond nifer fach o'i Biliau ei hun a gyflwynwyd, dim ond dau o Filiau Llywodraeth Cymru yr ydym wedi bod mewn sefyllfa i adrodd arnynt. O ganlyniad, mae'n anodd dod i gasgliadau eang ynghylch dull Llywodraeth Cymru o ddeddfu drwy ddefnyddio deddfwriaeth sylfaenol. Gwnaethom fynegi nifer o bryderon am yr ail

¹² Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Diwygio Cyfraith Lesddaliad (Rhent Tir), Rhagfyr 2021, paragraff 67

¹³ Gweler y drafodaeth yn y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Cofnod y Trafodion [56-58], 20 Mehefin 2022 a Lythyr oddi wrth y Cwnsler Cyffredinol, 4 Awst 2022, ymateb i gwestiwn 8.

Fil, sef Bil Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu) – ac rydym yn trafod y pryderon hynny isod.

61. Fel y nodwyd yn ein hadroddiad ar y Bil Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu), roedd yn hynod siomedig, yn ein barn ni, mai Bil galluogi oedd yr ail ddarn o ddeddfwriaeth sylfaenol a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru yn y Chweched Senedd. O'r herwydd, bydd angen llunio is-ddeddfwriaeth i gyflawni llawer o'r gwaith o ddatblygu a gweithredu polisi, sy'n golygu y bydd y Senedd a'i Haelodau etholedig yn pleidleisio ar sail 'un cyfle', gan nad yw is-ddeddfwriaeth yn destun gwaith craffu manwl ac nad yw'n bosibl ei diwygio.¹⁴

62. At hynny, roeddem yn pryderu am ddull gweithredu Llywodraeth Cymru o ran deddfu ar faterion trethiannol. Daethom i'r casgliad bod hwn yn Fil sydd "nid yn unig yn cynrychioli arfer deddfwriaethol gwael, ond sy'n ddiffygiol yn gyfansoddiadol", ac y dylid defnyddio deddfwriaeth sylfaenol, mewn egwyddor, yn hytrach nag is-ddeddfwriaeth i ddiwygio Deddfau Trethi Cymru, ac y dylid gwneud hynny, er enghraifft, drwy Fil cyllid, blynyddol neu fel arall, neu Fil diben arbennig, yn ddarostyngedig i weithdrefn frys.¹⁵

63. Yn ein hadroddiad, gwnaethom hefyd nodi na fyddai'n briodol, o safbwynt cyfansoddiadol, i Weinidogion Cymru fod â phŵer y gellid ei ddefnyddio i newid pwerau gwneud rheoliadau sy'n bodoli eisoes a ddirprwywyd i Weinidogion Cymru gan y Senedd, a gwnaethom argymhell y dylid diwygio'r Bil i ddileu'r pŵer hwnnw.¹⁶ Ni dderbyniodd Rebecca Evans, y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, yr argymhelliad hwn, ac awgrymodd y byddai'n rhy gyfyngol.¹⁷ Rydym ni'n parhau i gredu bod hwn yn bŵer eithriadol o eang nad yw'n briodol, o safbwynt cyfansoddiadol, i Weinidogion Cymru ei gael. Felly, byddwn yn parhau i fonitro Biliau Llywodraeth Cymru yn y dyfodol, ac os byddant yn cynnwys pwerau tebyg i'r rhai a geir yn *Neddf Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu) 2022*, byddwn yn eu dwyn i sylw'r Senedd.

64. Yn ein barn ni, mae Llywodraeth Cymru wedi colli cyfle i gyflwyno dull deddfwriaethol a fyddai wedi ei galluogi i gyflawni ei busnes ar faterion trethiannol, a pharchu mandad democrataidd a goruchafiaeth ddeddfwriaethol y Senedd ar yr un pryd.

¹⁴ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, *Adroddiad ar y Bil Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu)*, Ebrill 2022, paragraffau 87-88

¹⁵ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, *Adroddiad ar y Bil Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu)*, Ebrill 2022, paragraffau 90-113 a chasgliad 2

¹⁶ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, *Adroddiad ar y Bil Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu)*, Ebrill 2022, paragraffau 244-246 ac argymhelliad 11

¹⁷ *Llythyr oddi wrth y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol*, 11 Mai 2022

Llwyddiannau

65. Mae ein gwaith craffu ar femoranda cydsyniad deddfwriaethol a deddfwriaeth Llywodraeth Cymru wedi arwain at wella prosesau, yn ogystal â newid y ddeddfwriaeth ei hun, ac rydym yn trafod rhai o'r llwyddiannau hyn isod.

66. Wrth fynegi ein pryderon am yr amser a gymerodd i Lywodraeth Cymru osod rhai memoranda cydsyniad deddfwriaethol, nodwn yr arfer mwy diweddar lle y mae Gweinidogion Cymru wedi bod yn hysbysu'r Llywydd a'r Pwyllgorau os na osodir memoranda cydsyniad deddfwriaethol yn ystod y cyfnod arferol o bythefnos.¹⁸ Weithiau, mae rhesymau dealladwy am yr oedi ac felly rydym yn croesawu mabwysiadu'r dull hwn.

67. O ran ein hargymhellion i ddiwygio Biliau, rydym wedi sicrhau rhywfaint o lwyddiant.

68. Yn achos y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru), o'r 10 o argymhellion oedd yn ceisio diwygio'r Bil, derbyniodd Jeremy Miles AS, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, dri ohonynt yn llawn. Er enghraifft, daethom i'r casgliad y dylid diwygio'r Bil fel bod y rheoliadau a gaiff eu gwneud o dan adrannau 78(1)(c) a 78(2) yn ddarostyngedig i'r weithdrefn graffu gadarnhaol, a chytunodd y Gweinidog â hynny. Gwnaethom hefyd argymhell y dylid gwneud newidiadau i nodiadau esboniadol y Bil i helpu'r sawl a fyddai'n darllen y ddeddfwriaeth, ac rydym yn croesawu'r ffaith bod y Gweinidog wedi cytuno i weithredu ar yr argymhelliad hwn.

69. O ran y Bil Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu), o'r 12 o argymhellion a oedd yn ceisio newidiadau i'r Bil, derbyniodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol un yn llawn a phedwar arall yn rhannol neu mewn egwyddor. Er enghraifft, er i ni ddod i'r casgliad y dylai cyfraith ag effaith ôl-weithredol gael ei gwneud drwy ddeddfwriaeth sylfaenol, roedd gwelliant y Gweinidog i gyfyngu ar arfer y pŵer gwneud rheoliadau hwn yn gwella'r Bil. Rydym hefyd yn croesawu gwelliannau'r Gweinidog sy'n ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru gyflwyno adroddiad ar weithrediad y *Ddeddf Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu) 2022* a chynnwys darpariaeth machlud, er ei bod yn ddarostyngedig i amserlen hirach na'r hyn y gwnaethom ei argymhell.

70. Fel y dengys ein hastudiaeth achos, mae ein hadroddiadau ar offerynnau statudol unigol wedi arwain at nodi'r angen i wneud cywiriadau, sydd weithiau wedi arwain at dynnu rheoliadau yn ôl ac ail-osod rheoliadau. Mae hyn yn tynnu sylw at bwysigrwydd ein gwaith o graffu ar y

¹⁸ Gweler Rheol Sefydlog 29.2

rheoliadau hyn, yn enwedig gan eu bod yn cyfrif am ganran sylweddol o'r llyfr statud ac felly'r gyfraith sy'n effeithio ar fywydau ein dinasyddion bob dydd.

Edrych tua'r dyfodol

71. Byddwn ni'n parhau i graffu'n fanwl ar femoranda cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer Biliau Llywodraeth y DU a deddfwriaeth a wneir yng Nghymru. Yn benodol, byddwn yn:

- monitro rhesymau Llywodraeth Cymru am dorri'r rheol 21 diwrnod;
- o ran ein gwaith craffu ar Fil Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu), monitro'r defnydd o Filiau sgerbwd sy'n dirprwyo pwerau helaeth i Weinidogion Cymru ac felly'n rhoi gormod o bŵer i'r weithrediaeth;
- monitro'r broses o weithredu *Deddf Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu) 2022* ar ôl iddi gael ei ddeddfu;
- datblygu ein hegwyddorion (neu debyg) ein hunain i'w defnyddio i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif pan fo'n ceisio defnyddio Bil Llywodraeth y DU i ddeddfu mewn maes datganoledig;
- parhau i fonitro dull Llywodraeth Cymru o ddefnyddio Biliau Llywodraeth DU i ddeddfu mewn meysydd datganoledig, gan gynnwys craffu ymhellach ar y materion a godwyd yn llythyr y Cwnsler Cyffredinol ar 4 Awst 2022;
- parhau i ystyried sut y gall ein gwaith gyfrannu at esbonio cymhlethdodau cynyddol y gyfraith yng Nghymru, a thynnu sylw atynt, a pha fesurau y gellir eu cymryd, os o gwbl, i wella ei hygyrchedd;
- monitro'r defnydd o gytundebau rhynglywodraethol;
- cynnal sesiwn dystiolaeth gyda Llywodraeth Cymru ynglŷn â'i chapasiti i ddeddfu;
- trafod canlyniad adolygiad y Pwyllgor Busnes i'r broses cydsynio deddfwriaethol;¹⁹
- defnyddio ein profiadau o'r flwyddyn gyntaf o weithredu, a'r prif faterion a godwyd gan arbenigwyr yn ein digwyddiad ar 13 Mehefin 2022, i helpu i lywio'r gwaith o graffu ar y ffordd gymhleth yr eir ati i ddeddfu yng Nghymru.

¹⁹ Y Pwyllgor Busnes, 28 Medi 2021, cofnodion

3. Materion cyfansoddiadol a materion allanol

Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol

Y cefndir

72. Cafodd Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol newydd rhwng Senedd Cymru a Llywodraeth Cymru ei gytuno ar wahân gan y Pwyllgor a'r Prif Weinidog ym mis Tachwedd 2021 a'i nodi yn y Cyfarfod Llawn ar 15 Rhagfyr 2021. Mae'r Cytundeb yn cynrychioli'r sefyllfa y cytunwyd arni gan Senedd Cymru a Llywodraeth Cymru ynghylch y wybodaeth y bydd Llywodraeth Cymru yn ei darparu i'r Senedd o ran ei chyfranogiad mewn cyfarfodydd rhynglywodraethol ffurfiol, ar lefel weinidogol, ac mewn cytundebau, concordatau, a memoranda cyd-ddealltwriaeth.

73. Dywedodd y Prif Weinidog wrthym hefyd ym mis Tachwedd 2021 y byddai Llywodraeth Cymru yn ysgrifennu atom a phwyllgorau perthnasol eraill i roi gwybod i ni pan fo'n bwriadu rhoi cydsyniad i Lywodraeth y DU arfer pŵer deddfwriaethol dirprwyedig mewn maes datganoledig mewn perthynas â Chymru, gan egluro'r sail resymegol dros y bwriad i roi cydsyniad. Pan fydd amser yn caniatáu, dywedodd hefyd y rhoddir cyfle i'r Senedd fynegi barn cyn y rhoddir cydsyniad yn ffurfiol. Cyfeirir at yr ymrwymiad hwn yn ein hadroddiad ar y Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol.

Hysbysiad bod Llywodraeth Cymru yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd rhynglywodraethol ar lefel weinidogol

74. Ers i ni gael ein sefydlu fel Pwyllgor, rydym wedi cael hysbysiad bod Llywodraeth Cymru wedi cymryd rhan mewn 28 o gyfarfodydd rhynglywodraethol ar lefel weinidogol. Cawsom hysbysiad ymlaen llaw ynghylch 25 o'r cyfarfodydd hyn, a'r eitemau a fyddai'n cael eu trafod.

Hysbysiad bod Llywodraeth Cymru yn rhoi cydsyniad i Lywodraeth y DU arfer pŵer deddfwriaethol dirprwyedig mewn maes datganoledig mewn perthynas â Chymru

75. Yn yr un cyfnod, mae Llywodraeth Cymru wedi ein hysbysu o'i bwriad i roi cydsyniad i Lywodraeth y DU wneud 28 o eitemau o ddeddfwriaeth ddirprwyedig mewn meysydd datganoledig.

76. O'r 28 o eitemau hyn o ddeddfwriaeth, cawsom hysbysiad ymlaen llaw o fwriad Llywodraeth Cymru i gydsynio i 22 ohonynt. Fodd bynnag, daeth wyth o'r hysbysiadau hyn i law o fewn tri diwrnod busnes i'r dyddiad y cafodd y ddeddfwriaeth ei gosod yn Senedd y DU.

Cysylltiadau rhynglywodraethol

77. Cytunodd Llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig ar yr **adolygiad o gysylltiadau rhynglywodraethol** ym mis Ionawr 2022. Mae'r **erthygl hon gan Ymchwil y Senedd** yn cynnwys manylion am y strwythurau rhynglywodraethol newydd, sut y bydd llywodraethau'n cydweithredu ar draws ystod o feysydd allweddol lle rhennir cyfrifoldeb a'r broses ar gyfer datrys anghydfodau. Yn benodol, sefydlwyd Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol sy'n goruchwyllo materion trawsbynciol, ynghyd â grwpiau rhyngweinidogol ar lefel portffolio.

78. Clywsom dystiolaeth gan y Cwnsler Cyffredinol pan ddaeth yr adolygiad i ben ym mis Mawrth, gan drafod materion gan gynnwys:

- sicrhau bod egwyddorion newydd yn cael eu cymhwyso'n effeithiol ar gyfer gwaith rhynglywodraethol;
- y cynnydd wrth weithredu canlyniadau'r adolygiad;
- sut y bydd y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol yn mynd ati i oruchwyllo marchnad fewnol y DU a fframweithiau cyffredin;
- sut y bydd strwythurau rhynglywodraethol newydd yn darparu modd i Lywodraeth Cymru ymgysylltu â chysylltiadau rhyngwladol a rhwng y DU a'r UE.

79. Mae Llywodraeth Cymru'n adrodd i'r Senedd am gymryd rhan mewn strwythurau rhynglywodraethol ffurfiol drwy'r **Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol** (gweler adran flaenorol y bennod hon).

80. Cynhaliwyd dau gyfarfod cyntaf y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar 23 Mawrth a 29 Mehefin.

81. Ar **20 Gorffennaf 2022**, gwnaethom ysgrifennu at y Gwir Anrhydeddus Greg Clark AS, yr Ysgrifennydd Gwladol Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau, gan nodi ein pryder cynyddol nad yw'n ymddangos bod y strwythurau rhynglywodraethol newydd y cytunwyd arnynt wedi arwain at wella gwaith rhynglywodraethol mewn meysydd megis cydweithio ar ddatblygu Biliau Llywodraeth y DU mewn meysydd datganoledig. Atebodd yr Ysgrifennydd Gwladol ar **30 Awst 2022**.

Fframweithiau cyffredin

82. Cytunodd Llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig i ddatblygu fframweithiau cyffredin yn 2017 ar gydweithio mewn rhai meysydd polisi a oedd yn arfer cael eu llywodraethu ar lefel yr UE.

83. Cyhoeddwyd 21 o'r 26 o **fframweithiau cyffredin** arfaethedig a oedd yn ymwneud â Chymru erbyn i Gynulliad Gogledd Iwerddon gael ei ddiddymu ddiwedd mis Mawrth 2022.

84. Mae pwyllgorau'r Senedd wedi bod yn **crافu ar fframweithiau cyffredin** o fewn eu cylchoedd gwaith, ochr yn ochr â seneddau eraill ledled y DU. Rydym wedi bod yn goruchwyllo'r rhaglen fframweithiau cyffredin yn ei chyfanrwydd ac wedi **sicrhau ymrwymiadau ar dryloywder y rhaglen** gan y Cwnsler Cyffredinol.

85. Fel rhan o'n rôl o oruchwyllo a chraffu ar y rhaglen fframweithiau cyffredin, rydym wedi bod yn ystyried materion gan gynnwys:

- pa mor agored a thryloyw yw'r gwaith o ddatblygu fframweithiau cyffredin a'u rhoi ar waith;
- safon ac eglurder dogfennau fframwaith cyffredin;
- effaith fframweithiau cyffredin ar sut y gellir llunio cyfraith a pholisi i Gymru a sut yr arferir cymhwysedd datganoledig;
- goblygiadau deddfwriaeth y DU (megis *Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020* a *Deddf Rheoli Cymorthdaliadau 2022*) ar gyfer fframweithiau cyffredin;
- sut y mae fframweithiau cyffredin yn darparu modd i Lywodraeth Cymru ymgysylltu â'r broses o drafod a gweithredu rhwymedigaethau rhyngwladol rhwng y DU a'r UE.

Gweithredu Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020

86. Mae *Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020* yn cynnwys y darpariaethau a ganlyn:

- nodi'r egwyddorion cyffredinol o ran cydnabyddiaeth gilyddol a pheidio â gwahaniaethu a fydd yn gymwys i werthu nwyddau a darparu gwasanaethau yn y DU;
- cyflwyno system ar gyfer cydnabod cymwysterau proffesiynol a fydd yn gymwys ar draws y DU;

- rhoi'r Protocol Iwerddon a Gogledd Iwerddon ar waith;
- rhoi pwerau gwario newydd i Weinidogion y DU mewn meysydd datganoledig;
- cadw pwerau sy'n gysylltiedig â rheoli cymorthdaliadau yn ôl.

87. Ni roddodd y Bumed Senedd ei chydysyniad i Fil Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig ar y pryd.

88. Gwnaeth Llywodraeth Cymru gais i'r Llys Apêl am adolygiad barnwrol mewn cysylltiad â dehongli'r Ddeddf a'i heffaith ar ddeddfwriaeth sy'n cael ei phasio gan Senedd Cymru.

Gwrthododd y Llys yr apêl ym mis Chwefror, yn bennaf am fod y Llys yn amharod i drafod y materion mewn ffordd haniaethol, h.y. heb fod darn go iawn o ddeddfwriaeth y Senedd i'w ystyried. Nododd **Datganiad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru** ar 5 Gorffennaf 2022 y bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio cyflwyno Bil Plastigau Untro drwy broses frys i gefnogi ei her gyfreithiol barhaus i Ddeddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig.

89. Ym mis Mai a mis Mehefin 2022, gwelsom ddwy enghraifft ymarferol o ddarpariaethau'r Ddeddf ar waith, a'r materion craffu cysylltiedig a gododd yn sgil hynny. Yr enghreifftiau a welwyd oedd yr eithriad ar gyfer plastigau untro o gwmpas y Ddeddf a'r Bil Technoleg Enetig (Bridio Manwl). Mae'r ddwy enghraifft yn codi materion sydd o ddiddordeb o ran gweithredu Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig yn ymarferol ac aethom i'r afael â'r materion hyn drwy gasglu **tystiolaeth** gan y Cwnsler Cyffredinol a **gohebu** ag ef.

Cysylltiadau rhwng y DU a'r UE

Y cefndir

90. Mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am faterion allanol, gan gynnwys rheoli cysylltiadau rhwng y DU a'r UE, gan gynnwys y Cytundeb Ymadael a'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu. Gyda'i gilydd, mae'r ddau gytundeb hyn yn sefydlu'r sail ar gyfer cydweithrediad rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol ac yn llywodraethu cytundebau rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol. Mae rhagor o wybodaeth am y cytundebau hyn ar gael yn y gyfres hon o **bapurau briffio gan Ymchwil y Senedd**.

Cyfrifoldebau

91. Mae'r Senedd a Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am weithredu rhwymedigaethau rhwng y DU a'r UE mewn meysydd cymhwysedd datganoledig a rhaid iddynt gydymffurfio â hwy. Mae nifer o'r meysydd o dan sylw yn rhai datganoledig, fel pysgodfeydd, iechyd anifeiliaid ac iechyd planhigion, addysg uwch, datblygiad economaidd, newid hinsawdd a'r amgylchedd.

92. Nid oes Gweinidog unigol o Lywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am faterion sy'n ymwneud â'r UE (**gweler yr erthygl hon gan Ymchwil Senedd** am ragor o wybodaeth). Mewn rhai o gyfarfodydd y Cytundeb Masnach a Chydweithredu, caiff Llywodraeth Cymru ei chynrychioli gan Vaughan Gething AS, Gweinidog yr Economi, y mae ei **bortffolio** yn cynnwys masnach a chydgyssylltu materion y Cytundeb Masnach a Chydweithredu.

Llywodraethu

93. Mae'r strwythurau llywodraethu a gyflwynwyd ar ôl Brexit wedi creu **dros 30 o fforymau ar y cyd newydd rhwng y DU a'r UE** lle gellir trafod y broses weithredu a gwneud penderfyniadau cysylltiedig. Mae'r DU a'r UE yn anfon dirprwyaethau i'r cyfarfodydd hyn. Mae gan Lywodraeth Cymru a'r Senedd statws sylwedydd yn y cyfarfodydd.

Cynulliad Partneriaeth Seneddol y DU a'r UE

94. Mae'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn darparu opsiwn i sefydlu **Cynulliad Partneriaeth Seneddol** ar gyfer cydweithredu seneddol rhwng Senedd Ewrop a Senedd y DU.

95. Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y Cynulliad Partneriaeth Seneddol ym mis Mai 2022. Cynrychiolwyd y Senedd gan Alun Davies AS (aelod o'r Pwyllgor hwn) a Sam Kurtz AS (aelod o Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig). Roeddent yn bresennol fel sylwedyddion.

Crynodeb o weithgarwch y Pwyllgor

96. Ers i ni gael ein sefydlu, rydym wedi monitro datblygiadau'r DU a'r UE, gan gynnwys cydymffurfio â chytundebau'r DU a'r UE.

97. Yn ogystal â deddfwriaeth sy'n gysylltiedig â Brexit, rydym wedi trafod nifer o faterion o bwys sy'n ymwneud â gwahanol agweddau ar lywodraethu rhwng y DU a'r UE. Mae hyn wedi cynnwys mapio cyfrifoldebau newydd Llywodraeth Cymru, Protocol Gogledd Iwerddon, cysoni ac ymwahanu, cyfraith yr UE a ddargedwir a gweithredu fframwaith sefydliadol y Cytundeb Masnach a Chydweithredu.

98. Rydym wedi **nodi** pa mor heriol ydyw i lywio'r system newydd ac wedi gofyn am fwy o dryloywder gan Lywodraeth Cymru. Rydym wedi trafod gyda Llywodraeth Cymru sut y dylai roi gwybod i'r Senedd am ei chyfranogiad mewn cyfarfodydd rhwng y DU a'r UE, ac ar ôl cyfnewid gohebiaeth ym mis **Ionawr** a mis **Mawrth** 2022, dywedodd y Prif Weinidog yn ei lythyr ym mis Mawrth ei fod wedi ymrwymo i ddarparu gwybodaeth yn rhagweithiol am gyfarfodydd rhynglywodraethol a'i fod yn hapus i drafod sut y gellir darparu rhagor o wybodaeth am ran y Llywodraeth yn strwythurau'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu.

99. Mae'r Pwyllgor wedi gofyn am gyngor gan randdeiliaid arbenigol, gan gynnwys **gan yr Athro Catherine Barnard** ar effaith achosion o gysoni ac ymwahanu o dan y Cytundeb Masnach a Chydweithredu.

100. Ym mis Mehefin 2022, gwnaethom hefyd gyflwyno **tystiolaeth** i Bwyllgor Tŷ'r Cyffredin sy'n craffu ar faterion Ewropeaidd ynglŷn â'i ymchwiliad yntau i **gynrychiolaeth y DU yn yr UE: beth sydd wedi newid a sut y mae'n gweithio?**

Cytundebau rhyngwladol

Y cefndir

101. Yn 2019, y Senedd oedd y senedd ddatganoledig gyntaf i sefydlu proses graffu bwrpasol ar gyfer cytundebau rhyngwladol. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn yr **erthygl hon gan Ymchwil y Senedd**.

102. Rydym yn gyfrifol am graffu ar **gytundebau rhyngwladol yn y Chweched Senedd nad ydynt yn ymwneud â masnach**. Rydym yn **adrodd yn rheolaidd** i Senedd Cymru ac yn rhannu ein canfyddiadau â **Phwyllgor Cytundebau Rhyngwladol Tŷ'r Arglwyddi**.

103. Wrth drafod cytundebau rhyngwladol, rydym yn ystyried:

- a ydynt yn ymwneud â chymhwysedd y Senedd, a/neu
- a oedd unrhyw oblygiadau polisi posibl i Gymru.

104. Mae'r Prif Weinidog wedi **cydnabod** ei bod yn ofynnol i'r llywodraethau datganoledig weithredu cytundebau rhyngwladol a'u dilyn, ni waeth beth yw'r goblygiadau i gymhwysedd datganoledig neu gyrff Cymru.

Crynodeb o weithgarwch y Pwyllgor

105. Rydym yn cydgysylltu'r gwaith o graffu ar gytundebau rhyngwladol nad ydynt yn ymwneud â masnach ac mae'n trafod pob cytundeb a osodir yn Senedd y DU o dan y broses a sefydlwyd gan **Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu 2010** (Deddf 2010).

106. Ers i'r Pwyllgor gael ei ffurfio, a hyd at ein cyfarfod olaf ym mis Gorffennaf 2022, rydym wedi ystyried 29 o gytundebau. Rydym wedi cymryd camau pellach ar 13 o gytundebau ac wedi nodi 14 o gytundebau er gwybodaeth yn unig.

107. Mae'r cytundebau rhyngwladol a drafodwyd hyd yma:

- yn cydblethu â meysydd datganoledig a rhai a gedwir yn ôl i wahanol raddau;
- yn ymdrin â gwahanol fathau o gydweithredu rhyngwladol yn y meysydd a ganlyn: addysg, ynni, morol, diogelwch, amddiffyn, cydweithrediad barnwrol, diplomyddiaeth, cydgysylltu nawdd cymdeithasol, trafnidiaeth, llafur a hawliau dynol.

108. Pan fo'r Pwyllgor wedi cytuno i gymryd camau pellach, mae hyn fel arfer yn cynnwys:

- ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i ofyn am ragor o wybodaeth,
- tynnu sylw pwyllgorau eraill y Senedd at y cytundeb, a
- rhannu ei ganfyddiadau â Phwyllgor Cytundebau Rhyngwladol Tŷ'r Arglwyddi.

109. Mae'r ymatebion a gafodd Llywodraeth Cymru yn cynnwys gwybodaeth am:

- i ba raddau y mae'n ymgysylltu â'r gwaith o drafod cytundebau rhyngwladol a'u rhoi ar waith;
- a oedd ganddi wybodaeth ymlaen bod cytundeb wedi dod i ben;
- ble y mae Memoranda Cyd-ddealltwriaeth ar waith rhwng y pedair llywodraeth ar gyfer rhai categorïau o gytundebau rhyngwladol;
- y berthynas rhwng cytundebau rhyngwladol a mecanweithiau domestig;
- dull Llywodraeth Cymru o ymdrin â rhwymedigaethau rhyngwladol penodol;
- y meysydd lle y mae ganddi farn wahanol i Lywodraeth y DU.

Gweithio rhyngseneddol

110. Ar ôl iddo gael ei ailgyfansoddi, cyfarfu'r **Fforwm Rhyngseneddol** am y tro cyntaf ar 25 Chwefror 2022 yn Nhŷ'r Arglwyddi lle y cytunwyd ar gylch gorchwyl diwygiedig. Nod y Fforwm yw:

- craffu ar gysylltiadau rhwynglywodraethol, gan gynnwys cytuno ar adroddiad blynyddol ar y cyd ar fynd i'r afael â heriau cyffredin ynghylch gwaith craffu;
- trafod y ffordd y rhoddir cytundebau rhyngwladol ar waith, gan gynnwys y Cytundeb Ymadael, y Cytundeb Masnach a Chydweithredu a Phrotocol Iwerddon/Gogledd Iwerddon;

- trafod materion sy'n gysylltiedig â marchnad fewnol y DU;
- trafod effaith y trefniadau cyfansoddiadol newydd ar y broses ddeddfwriaethol, gan gynnwys y defnydd o bwerau eilaidd a'r broses cydsyniad deddfwriaethol.

111. Cyhoeddodd y Fforwm **ddatganiad ar y cyd** a oedd yn cydnabod bod y Fforwm yn fan cychwyn ar gyfer deialog a chydweithredu rhwng Seneddau. Cynrychiolir y Senedd gan Gadeirydd y Pwyllgor hwn neu aelod arall o'r Pwyllgor os na all y Cadeirydd fod yn bresennol, a chan Gadeirydd neu gynrychiolydd o'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith. Mae'n debygol y bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ym mis Hydref 2022 yng Nghaerdydd.

112. Ers dechrau'r Chweched Senedd, rydym wedi cyfarfod â nifer o bwyllgorau o Dŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi, gan gynnwys Pwyllgor Cyfansoddiad Tŷ'r Arglwyddi, Pwyllgor Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Materion Cyfansoddiadol Tŷ'r Cyffredin a Phwyllgor Gweithdrefnau Tŷ'r Cyffredin. Rydym hefyd wedi cyfarfod â'r Arglwydd McFall, Llefarydd Tŷ'r Arglwyddi.

113. Yn y cyfarfodydd hyn, mae aelodau wedi trafod ystod o faterion sy'n ymwneud â gweithio rhyngseneddol, cysylltiadau rhynglywodraethol a chraffu ar strwythurau rhynglywodraethol newydd a materion sy'n gysylltiedig â'r broses ddeddfwriaethol gan gynnwys cydsyniad deddfwriaethol ac is-ddeddfwriaeth.

Casgliadau

Canfyddiadau a phryderon

114. Yn ystod blwyddyn gyntaf y **Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol** yn y Chweched Senedd, gwelwyd manteision yn sgil sicrhau bod ein Pwyllgor yn cael gwybod am y pynciau trafod mewn cyfarfodydd rhynglywodraethol.

115. Fodd bynnag, ni fyddwn ni na phwyllgorau eraill y Senedd bob amser yn cael digon o rybudd ynghylch y cyfarfodydd hyn. Ar gyfer 13 o'r 28 o gyfarfodydd y cyfeirir atynt ym mharagraff 74, cawsom lai na thri diwrnod busnes o rybudd eu bod yn cael eu cynnal (gan gynnwys y tri chyfarfod lle na roddwyd rhybudd). Nodwn fod rhai o'r cyfarfodydd hyn wedi cael eu trefnu ar fyr rybudd a'u bod ar y cyfan y tu hwnt i reolaeth Llywodraeth Cymru. Ond weithiau nid yw Llywodraeth Cymru yn **rhoi'r rhesymau am y diffyg rhybudd**.

116. Ein nod yw llywio'r trafodaethau yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol os yw amser yn caniatáu. Er enghraifft, ar ôl i'r **Prif Weinidog ddweud wrthym ar 18 Mawrth** y byddai cyfarfod cyntaf y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol yn cael ei gynnal ar 23 Mawrth, **ysgrifennom at y Prif Weinidog ar 22 Mawrth** i rannu ein sylwadau ar yr eitemau

i'w trafod. Ar ôl y cyfarfod, **dywedodd y Prif Weinidog wrthym** fod ein llythyr wedi'i nodi gan Gadeirydd y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol, sef y Gwir Anrhydeddus Michael Gove AS, yr Ysgrifennydd Gwladol Ffyniant Bro ar y pryd. Dywedodd hefyd ei fod wedi tynnu sylw'r Ysgrifennydd Gwladol at y materion a godwyd yn ein llythyr.

117. Rydym hefyd wedi nodi nad yw pwyllgorau perthnasol eraill y Senedd bob amser yn cael rhybudd o gyfarfodydd sydd yn cynnwys trafod eitemau sy'n debygol o fod o fewn eu cylchoedd gwaith. Cyn yr ail Bwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol, a gynhaliwyd ar 29 Mehefin, **ysgrifennom at Lywodraeth Cymru** i ddweud y byddai'n fanteisiol iddi anfon copi yn y dyfodol o ohebiaeth am gyfarfodydd rhyngwladol o'r fath at bwyllgorau perthnasol y Senedd. Yn ei ymateb i'n llythyr, **dywedodd y Cwnsler Cyffredinol** y byddai copïau o'r ohebiaeth ynghylch cyfarfodydd o'r fath yn y dyfodol yn cael eu hanfon at bob un o bwyllgorau'r Senedd y mae eitemau ar yr agendâu (a diweddariadau dilynol ynghylch y cyfarfodydd) yn debygol o fod o fewn eu cylchoedd gwaith.

118. Fodd bynnag, rydym yn bryderus am y diffyg rhybudd a roddir cyn cynnal cyfarfodydd, a chyn i Weinidogion Cymru gydsynio i reoliadau'r DU mewn meysydd datganoledig. Mae'r diffyg rhybudd hwn yn golygu na allwn ni na phwyllgorau eraill gyfrannu'n effeithiol at gyfarfodydd, na chynnig barn wybodus ynghylch a ddylai Llywodraeth Cymru gydsynio i wneud eitemau o is-ddeddfwriaeth gan Lywodraeth y DU.

119. Ar y pwynt olaf hwn, er bod y Prif Weinidog wedi dweud wrthym, y byddai Llywodraeth Cymru'n rhoi cyfle i'r Senedd fynegi barn "pan fydd amser yn caniatáu" cyn cydsynio'n ffurfiol i reoliadau, gall yr ohebiaeth a gawn ynghylch y materion hyn yn aml fod yn aneglur. Er enghraifft, nid yw'n egluro a oes cyfyngiadau amser yn ymwneud ag eitemau penodol o is-ddeddfwriaeth ddirprwyedig, sy'n golygu nad yw'n glir bob amser a yw rhoi cyngor ar *fwriad* Llywodraeth Cymru i gydsynio yn gyfle i bwyllgorau roi eu barn.²⁰

120. Fel y nodir yn ein llythyr at Lywodraeth y DU ym mis Gorffennaf 2022 (gweler paragraff 81), rydym yn pryderu nad yw'n ymddangos bod y strwythurau rhynglywodraethol newydd y cytunwyd arnynt wedi arwain at leihau anghydfodau neu wella'r trefniadau gweithio rhynglywodraethol mewn meysydd fel datblygu deddfwriaeth.

121. Wrth i fframweithiau cyffredin gael eu cyhoeddi ar gyfer gwaith craffu, rydym yn pryderu nad yw'r ffordd y cânt eu gweithredu yn ddigon agored na thryloyw. Enghraifft ddifrifol yn ein

²⁰ Er enghraifft, **ysgrifennodd Gweinidog yr Economi at y Pwyllgor ar 10 Mehefin 2022** i nodi ei fod yn rhoi ei gydsyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Ymestyn Cyfnodau Trosiannol) (Diwygio) 2022, a'i fod yn deall y byddent yn cael eu gosod ar 8 Mehefin 2022.

barn ni yw'r ffaith na chafodd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith wybod y rhoddwyd eithriad i Lywodraeth Cymru er mwyn peidio â chynnwys plastig untro o dan *Ddeddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig* 2020 nes i'r Pwyllgor holi am hynny mewn gohebiaeth.

Llwyddiannau

122. Yn ystod ein gwaith craffu, rydym yn falch ein bod wedi sicrhau statws sylwedydd ar y Cynulliad Partneriaeth Seneddol. Rydym wedi pwysu am i gynrychiolwyr deddfwrfeydd datganoledig allu cyflwyno sylwadau uniongyrchol yng nghyfarfodydd y Cynulliad Partneriaeth Seneddol yn y dyfodol, oherwydd y credwn y gall aelodau yn y gwledydd datganoledig ychwanegu at wybodaeth pawb am faterion pwysig fel polisi ynghylch yr hinsawdd a'r amgylchedd, ar sail eu profiadau hwy a phrofiadau eu hetholwyr hefyd. Nodwyd hynny yn y dystiolaeth a gyflwynwyd gennym i ymchwiliad Craffu Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin ar Faterion Ewropeaidd (gweler paragraff 100 uchod).

123. Rydym hefyd yn falch ein bod wedi sicrhau mwy o dryloywder o ran ymgysylltiad Llywodraeth Cymru â strwythurau llywodraethu'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu. Bydd hyn yn ein galluogi i ddwyn y Llywodraeth i gyfrif yn well am ei gweithgareddau, ond mae hefyd yn darparu sylfaen gadarnach ar gyfer egluro'r heriau a wynebier yng Nghymru pan fyddwn yn ymgysylltu â phwyllgorau seneddol y DU.

124. Mae ein gwaith wrth graffu ar gytundebau rhyngwladol wedi arwain at lwyddiannau mewn dau faes. Wrth i ni drafod materion yn ymwneud â chytundebau rhyngwladol drwy graffu ar ddeddfwriaeth sylfaenol ar ôl Brexit, cawsom ymrwymiad, pe bai Biliau Llywodraeth DU sy'n destun i femoranda cydsyniad deddfwriaethol Llywodraeth Cymru yn cydblethu â threfniadau domestig a/neu ryngwladol, y bydd Llywodraeth Cymru yn nodi hynny'n glir ac yn darparu manylion yn y memorandwm perthnasol.

125. Rydym hefyd wedi cael rhagor o wybodaeth wrth drafod cytundebau rhyngwladol unigol nad ydynt fel arall yn cael eu darparu i'r Senedd. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth fanwl gan y Prif Weinidog am bwysigrwydd rhwymedigaethau rhyngwladol, dull gweithredu Llywodraeth Cymru a'i disgwyliadau. Mae hyn wedi cyfoethogi dealltwriaeth y Senedd o effaith rhwymedigaethau rhyngwladol ac wedi sicrhau bod y wybodaeth bellach yn gyhoeddus.

126. Felly, mae rôl pwyllgorau'r Senedd yn hanfodol i fonitro'r broses o roi cytundebau rhyngwladol ar waith a'r modd y maent yn gweithio, ac wrth nodi eu heffaith ar Gymru.

127. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd meithrin perthynas â chynifer o bwyllgorau seneddol â phosibl. Er nad yw'r Fforwm Rhyngseneddol wedi cwrdd mor aml ag y byddem wedi hoffi oherwydd y pandemig, mae'n amlwg bod awydd i'r Fforwm ddechrau o'r newydd a chwarae

rhan weithredol wrth ddarparu cyfleoedd i drafod materion sydd o ddiddordeb ac yn peri pryder i'r holl bartion.

Edrych tua'r dyfodol

128. Byddwn yn parhau i fwrw ymlaen â'n gwaith o graffu ar faterion cyfansoddiadol ehangach a meysydd sy'n ymwneud â materion allanol, gan gynnwys drwy:

- fonitro'r modd y mae Llywodraeth Cymru yn mabwysiadu ac yn gweithredu'r Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol;
- gofyn i Lywodraeth Cymru roi mwy o eglurder am y cyfleoedd sydd ar gael i bwyllgorau fynegi eu barn ynghylch a ddylai Llywodraeth Cymru gydsynio i Lywodraeth y DU arfer pŵer deddfwriaethol dirprwyedig mewn maes datganoledig mewn perthynas â Chymru;
- parhau i fonitro'r broses o weithredu'r strwythurau rhynglywodraethol newydd a chodi unrhyw faterion sy'n peri pryder â Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU fel y bo'n briodol;
- monitro effaith **Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio)** Llywodraeth y DU yn y dyfodol;
- parhau i wneud sylwadau i sicrhau rôl fwy gweithredol i'r deddfwrfeydd datganoledig ym maes llywodraethu cysylltiadau rhwng y DU a'r UE, gan gynnwys o ran statws sylwedyddion yn y Cynulliad Partneriaeth Seneddol;
- parhau i fonitro materion allanol i asesu effaith y trefniadau ar ôl Brexit, a chydymffurfio â hwy, gan gynnwys rhwymedigaethau rhyngwladol newydd a chytuniadau rhwng y DU a'r UE;
- parhau i feithrin perthynas gynhyrchiol gyda phwyllgorau seneddol ledled y DU.

4. Craffu ar gyfiawnder

Y cefndir

129. Yn sgil argymhelliad **y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru** y dylai'r Senedd gymryd rôl fwy rhagweithiol wrth graffu ar sut y mae'r system gyfiawnder yn gweithio yng Nghymru, dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi parhau i adeiladu ar waith y Pwyllgor a'n rhagflaenodd.

130. Mae ein sesiynau tystiolaeth ffurfiol dros y flwyddyn ddiwethaf wedi cynnwys rhai gyda'r Cwnsler Cyffredinol, **Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru, yr Arglwydd Thomas o Gwmgiedd**, cyn-Gadeirydd y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru ac **aelodau o Gyngor Cyfraith Cymru**. Isod rydym yn amlinellu'r prif themâu yr ydym wedi'u nodi yn sgil ein gwaith craffu.

Arweinyddiaeth ac atebolrwydd o ran materion cyfiawnder

131. Ar ddechrau'r Senedd hon, gwelsom Lywodraeth Cymru yn **ailsefydlu Is-bwyllgor y Cabinet ar Gyfiawnder** i fwrw ymlaen ag argymhellion a wnaed gan y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru, ac i hyrwyddo'r agenda drwy drafod â Llywodraeth y DU.

132. Ym mis Mai 2022, gwnaethom nodi bod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'r papur **Sicrhau Cyfiawnder i Gymru** a'r rhaglen waith gysylltiedig. Roedd y papur yn cadarnhau bod Llywodraeth Cymru o blaid datganoli cyfiawnder, a'i bod wedi cytuno â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder i adolygu holl argymhellion y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru nad ydynt yn amodol ar ddatganoli cyfiawnder, â'r bwriad o nodi argymhellion i fwrw ymlaen â hwy ar y cyd.

133. Rydym wedi clywed galwadau am welliannau penodol: yn ei dystiolaeth lafar ym mis **Tachwedd 2021**, dywedodd yr Arglwydd Thomas y byddai'n ddefnyddiol datblygu cyrff cydgysylltu cyfiawnder Cymru gyfan ar gyfiawnder teuluol a throseddol, ac y dylai fod mwy o gydgyssylltiad rhwng cyfiawnder a rhannau eraill o Lywodraeth Cymru. Trafododd ein Cadeirydd y galwadau hyn am weithredu gyda'r Cwnsler Cyffredinol wrth ymateb i'w **ddatganiad ar Sicrhau Cyfiawnder i Gymru**. Mewn ymateb, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol bod cyrff cydgysylltu cyfiawnder Cymru gyfan naill ai "yn cael eu datblygu, eu sefydlu neu eu gweithredu", a bod gwaith cydgysylltu parhaus yn digwydd yn y meysydd hynny a oedd yn agored i ymyrraeth.

134. Fel rhan o waith craffu pwyllgorau'r Senedd ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022-23, **gwnaethom ysgrifennu** at y Cwnsler Cyffredinol er mwyn nodi ein barn ar y

dyraniadau arfaethedig ar gyfer gwariant sy'n gysylltiedig â chyfiawnder, gan gynnwys cyfres o argymhellion.

135. Mewn ymateb, ymrwymodd y Cwnsler Cyffredinol i:

- lunio adroddiad blynyddol sy'n tynnu sylw at gynnydd o ran cyflawni'r rhaglen waith sy'n ymwneud â chyfiawnder;
- archwilio'r ffyrdd y gellir gwella lefel y wybodaeth a ddarperir am wariant ar gyfiawnder.

136. Gwnaeth hefyd nodi ein hargymhelliad y dylai'r rhaglen waith sy'n ymwneud â chyfiawnder gynnwys camau mesuradwy a rhaglenni penodol ar gyfer cyflawni, gyda chostau llawn. Er bod y rhaglen waith sy'n cyd-fynd â **Sicrhau Cyfiawnder i Gymru** yn cyfeirio at raglenni gwaith gan roi'r costau llawn, ni roddir costau ar gyfer y rhaglen yn ei chyfanrwydd.

137. Ym mis Gorffennaf 2022, **nododd ein Cadeirydd yn y Cyfarfod Llawn** yr hyn y dylai Llywodraeth Cymru ei flaenoriaethu, yn ein barn ni, yn ei chyllideb ddrafft ar gyfer 2023-24. Gwnaethom ategu ein galwad am ddatgyfuno'r ffigurau gwariant ar gyfiawnder yn y dyfodol, yn ogystal â'n diddordeb yn y modd y bydd Llywodraeth Cymru yn archwilio'r ffyrdd y gall wella'r wybodaeth a ddarperir ganddi am y gwariant hwn.

Data ar droseddu a chyfiawnder

138. Ym mis Ionawr 2022, rhannodd y Cwnsler Cyffredinol **yr enghreifftiau diweddaraf â ni o'r dangosfyrddau trosedd a chyfiawnder** sy'n cael eu datblygu gan Lywodraeth Cymru, sy'n cymryd data o amryw ffynonellau, gan gynnwys y Weinyddiaeth Gyfiawnder, y Swyddfa Gartref, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi, yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch, Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid Cymru a Lloegr a'r Gwasanaeth Ieuencid yn y Ddalfa. **Dywedodd** y Cwnsler Cyffredinol wrthym fod Llywodraeth Cymru yn gweithio i gyhoeddi'r dangosfyrddau yn ffurfiol.

Cefnogi'r sector cyfreithiol a mynediad at gyfiawnder

139. Yn ei dystiolaeth ym mis Tachwedd 2021, rhoddodd yr Arglwydd Thomas ei farn am bwysigrwydd y sector cyfreithiol i'r economi, mynediad at gyngor cyfreithiol, a sicrhau bod y proffesiwn cyfreithiol yn cael ei foderneiddio.

140. Rhwng mis Rhagfyr 2021 a mis Ionawr 2022, aeth Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion y Senedd ati ar ein rhan i gasglu safbwyntiau ymarferwyr cyfreithiol ac ymgyfreithwyr wyneb yn wyneb o bob rhan o Gymru. Cynhaliodd y tîm gyfres o grwpiau ffocws a chyfweliadau un i un, a lluniwyd

crynodeb o'r prif themâu a gododd yn y trafodaethau hynny ym Mehefin 2022. Ym mis Gorffennaf 2022, gwnaethom ysgrifennu at **Lywodraeth Cymru** a'r **Arglwydd Ganghellor** i dynnu sylw at y prif themâu a gododd, a gwnaethom groesawu'r **ymateb** gan y Cwnsler Cyffredinol a ddaeth i law ym mis Medi 2022. Roedd y themâu a drafodwyd yn cynnwys:

- yr heriau o ran recriwtio a chadw staff;
- diffyg argaeledd cymorth cyfreithiol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig;
- bod lleoliad llysoedd yng Nghymru yn rhwstr i fynediad at gyfiawnder;
- hygyrchedd cyfraith Cymru.

141. Gwnaethom hefyd glywed tystiolaeth gan Gyngor Cyfraith Cymru ym mis **Mai 2022**. Sefydlwyd Cyngor Cyfraith Cymru ym mis Mai 2021 yn dilyn **papur trafod** ac **argymhelliad gan y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru**. **Disgrifiodd Comisiwn Thomas** ei gynigion ar gyfer Cyngor Cyfraith Cymru fel ymateb i'r galw am "gydweithredu, cydgysylltu a chyfathrebu gwell ym maes y gyfraith".

142. Nododd yr Arglwydd Lloyd-Jones, Llywydd Cyngor Cyfraith Cymru, ei fod yn gwneud cynnydd o ran sefydlu'r cyngor, er bod natur y corff yn arwain at **rai cyfyngiadau ar y modd y bydd yn gweithredu**. Nododd hefyd y prosiectau gwaith cychwynnol yr oedd pwyllgor gwaith Cyngor Cyfraith Cymru wedi penderfynu ymgymryd â hwy, gan gynnwys gwaith i:

- sefydlu cwricwlwm sylfaenol ar gyfer prifysgolion yng nghyfraith Cymru;
- gwneud gwaith cwmpasu ar addysg gyhoeddus a dealltwriaeth o gyfraith Cymru;
- archwilio'r materion o ran cadw talent gyfreithiol yng Nghymru, a thechnoleg gyfreithiol;
- ystyried a fyddai'n hyfyw cael canolfan genedlaethol i ddatrys anghydfodau yng Nghymru.

143. Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol wrthym ym mis Mehefin fod sefydlu Cyngor Cyfraith Cymru wedi bod yn gam pwysig iawn ymlaen o ran archwilio anghenion y proffesiwn cyfreithiol yng Nghymru, ac y bydd yn datblygu'n raddol i gynnwys y materion sy'n ymwneud â'r economi gyfreithiol.

144. O ran cyfiawnder sifil a'r llysoedd, **dywedodd yr Arglwydd Thomas wrthym** ym mis Tachwedd 2021 fod angen llys sifil go iawn yng Nghymru, gan nad yw Canolfan Cyfiawnder Sifil

Caerdydd yn cyrraedd y nod. Ym mis Mehefin, **dywedodd y Cwnsler Cyffredinol hefyd** fod methiant y Weinyddiaeth Gyfiawnder i wella cyfleusterau llysoedd yng Nghymru, yn enwedig canolfan cyfiawnder sifil Caerdydd, yn 'sgandal'.

Tribiwnlysoedd Cymru

145. Ym mis Rhagfyr, cyhoeddodd Comisiwn y Gyfraith ei **adroddiad yn argymhell diwygio Tribiwnlysoedd Cymru**. **Dywedodd** yr Arglwydd Thomas fod diwygio Tribiwnlysoedd Cymru yn helpu i greu egin sefydliad cyfiawnder.

146. Fel rhan o bapur **Sicrhau Cyfiawnder i Gymru**, nododd Llywodraeth Cymru ei hymateb i brosiect Comisiwn y Gyfraith ar Dribiwnlysoedd Cymru, gan gefnogi'r prif argymhellion a chadarnhau y byddai'n ymgysylltu â rhanddeiliaid ar y cynigion cyn cyflwyno deddfwriaeth sylfaenol.

147. Buom yn archwilio'r prosiect sy'n sail i adroddiad Comisiwn y Gyfraith gyda **Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru** ym mis Tachwedd 2021, yn ogystal â'i **drydydd adroddiad blynyddol**.

148. Gofynnwyd hefyd am farn y Llywydd ar effaith y pandemig ar fynediad at gyfiawnder yn Nhribiwnlysoedd Cymru. Cawsom wybod sut aeth y tribiwnlysoedd ati i gynnal gwrandawiadau o bell, ac er bod manteision i wneud hynny, clywsom nad oes dim yn cymharu â gwrandawiadau wyneb yn wyneb i sicrhau'r canlyniadau gorau posibl mewn rhai mathau o dribiwnlysoedd.

Casgliadau

Canfyddiadau a phryderon

149. Fel yr ydym eisoes wedi ei nodi, mae natur eang ein cylch gwaith yn heriol, a gan ein bod yn treulio cyfran helaeth o'n hamser yn trafod materion deddfwriaethol, nid ydym wedi cael llawer o gyfle i graffu ar faterion cyfiawnder. Rydym yn cydnabod bod dinasyddion Cymru yn wynebu heriau sylweddol o ran gweithrediad y system gyfiawnder a bod y materion hyn yn haeddu cael eu dadansoddi a'u trafod yn fanwl.

150. Felly, er bod ein cylch gwaith eang wedi cyfyngu ar ein gallu i ystyried y maes hwn o'n gwaith i'r graddau y byddem wedi gobeithio, rydym wedi casglu tystiolaeth gan nifer o unigolion ar faterion sy'n ymwneud â chyfiawnder yng Nghymru. Rydym hefyd wedi nodi â diddordeb y gwaith a gyflawnwyd gan bwyllgorau eraill y Senedd wrth graffu ar y system gyfiawnder yng Nghymru, gan gynnwys gwaith y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol yn trafod **profiadau menywod o'r system cyfiawnder troseddol**.

151. Rydym yn croesawu'r camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru eleni i ymateb yn gadarnhaol i argymhellion y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru, ac rydym yn cefnogi ei chydweithrediad parhaus â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder i nodi argymhellion y gallan fwrw ymlaen â hwy mewn partneriaeth. Mae sefydlu Cyngor Cyfraith Cymru hefyd yn sbardun allweddol yn ein barn ni ar gyfer cydweithio, cydgysylltu a chyfathrebu ym maes y gyfraith, ac rydym yn edrych ymlaen at weld hynt ei waith.

152. Er bod cynnydd yn cael ei wneud, mae'n amlwg o'n gwaith ymgysylltu gydag ymarferwyr cyfreithiol bod llawer i'w wneud o hyd i ymateb i'r heriau sy'n wynebu'r sector cyfreithiol ar hyn o bryd, a'r rhwystrau sy'n wynebu'r rhai sy'n ceisio mynediad at gyfiawnder.

153. Mae'r pryderon a godwyd gan yr Arglwydd Thomas a'r Cwnsler Cyffredinol o ran cyflwr cyfleusterau llys yng Nghymru hefyd yn peri gofid mawr, yn enwedig gan fod y pryderon hynny wedi eu nodi ers cryn amser.

Llwyddiannau

154. Mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi ymgysylltu'n rhagorol â ni ar faterion cyfiawnder yn ei bortffolio drwy gydol y flwyddyn, a bu hynny'n fantais. Rydym yn croesawu'n fawr ei ymrwymadau i'r Pwyllgor hwn i wella tryloywder o ran darparu'r rhaglen gwaith sy'n ymwneud â chyfiawnder, a gwariant Llywodraeth Cymru ar gyfiawnder.

Edrych tua'r dyfodol

155. Rydym yn edrych ymlaen at weld cynnydd parhaus o ran datblygiad y system gyfiawnder yng Nghymru, drwy:

- fonitro cynnydd Llywodraeth Cymru yn yr adroddiadau blynyddol ar ei rhaglen waith cyfiawnder;
 - edrych ar gynnydd y Weinyddiaeth Gyfiawnder wrth ymateb i argymhelliad y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru yn ystod sesiwn dystiolaeth yn y dyfodol;
 - gweld allbynnau cychwynnol Cyngor Cyfraith Cymru o'i amrywiol lifoedd gwaith i gefnogi'r sector cyfreithiol;
 - archwilio gwaith Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru, a fydd yn gadael y swydd yn fuan, fel y'i disgrifir yn ei adroddiad blynyddol terfynol;
 - archwilio gwaith rhyngseneddol gyda phwyllgorau ar faterion cyfiawnder;
 - monitro cynnydd Llywodraeth Cymru tuag at ei nod o ddatganoli cyfiawnder.
-

Atodiad A: Rhestr o'r sesiynau tystiolaeth lafar

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Mae trawsgrifiadau'r holl sesiynau tystiolaeth lafar ar gael ar [wefan y Pwyllgor](#).

Dyddiad	Diben	Enw a sefydliad
20 Medi 2021	Sesiwn graffu gyffredinol	Mick Antoniw AS, Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad Christopher Warner, Dirprwy Gyfarwyddwr, Materion Cyfansoddiadol a Chysylltiadau Rhynglywodraethol, Llywodraeth Cymru James Gerard, Dirprwy Gyfarwyddwr, Cyfiawnder a Materion Cyfansoddiadol, Llywodraeth Cymru
1 Tachwedd 2021	Trydydd adroddiad blynyddol Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru	Syr Wyn Williams, Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru Rhian Davies Rees, Pennaeth Uned Tribiwnlysoedd Cymru
22 Tachwedd 2021	Adroddiad y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru	Yr Arglwydd Thomas o Gwmgiedd, Cyn-Gadeirydd y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru
29 Tachwedd 2021	Rhaglen codau cyfraith Cymru a chynigion o ran hygyrchedd cyfraith Cymru	Mick Antoniw AS, Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad Claire Fife, Cynghorwr Polisi i'r Cwnsler Cyffredinol, Llywodraeth Cymru Dylan Hughes, Prif Gwnsler Deddfwriaethol, Llywodraeth Cymru

Dyddiad	Diben	Enw a sefydliad
6 Rhagfyr 2021	Y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru): Gwaith craffu Cyfnod 1	Jeremy Miles AS, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg Cath Wyatt, Rheolwr y Bil, Llywodraeth Cymru Grace Martins, Cyfreithiwr, Llywodraeth Cymru
17 Ionawr 2022	Sesiwn graffu i drafod gwaith Llywodraeth Cymru ar gyfiawnder, gweithredu Comisiwn Thomas a chyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022-23	Mick Antoniwn AS, Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad James Gerard, Dirprwy Gyfarwyddwr Polisi Cyfiawnder, Llywodraeth Cymru
31 Ionawr 2022	Sesiwn graffu ar fframweithiau cyffredin a chyfraith yr UE a ddargedwir	Mick Antoniwn AS, Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad Rob Parry, Dirprwy Gyfarwyddwr, Deddfwriaeth Pontio Ewropeaidd, Llywodraeth Cymru Paul Harrington, Pennaeth Cysylltiadau Rhynglywodraethol, Pontio Ewropeaidd, Llywodraeth Cymru
14 Chwefror 2022	Bil Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu): gwaith craffu Cyfnod 1	Rebecca Evans AS, Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol Andrew Hewitt, Trysorlys Cymru Anna Adams, Trysorlys Cymru Lynsey Edwards, Gwasanaethau Cyfreithiol, Llywodraeth Cymru

Dyddiad	Diben	Enw a sefydliad
14 Mawrth 2022	Sesiwn graffu yn ymwneud â'r Adolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol a dull gweithredu Llywodraeth Cymru o ran deddfu	Mick Antoniw AS, Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad Piers Bisson, Cyfarwyddwr Pontio Ewropeaidd, Llywodraeth Cymru Adam Turbervill, Uwch-gyfreithiwr, Llywodraeth Cymru
9 Mai 2022	Materion yn ymwneud â chyfiawnder yng Nghymru	Yr Arglwydd Lloyd-Jones, Llywydd Cyngor Cyfraith Cymru Yr Athro Emyr Lewis, Is-lywydd Cyngor Cyfraith Cymru Dr Nerys Llewelyn Jones, Aelod o Bwyllgor Gweithredol Cyngor Cyfraith Cymru
20 Mehefin 2022	Sesiwn graffu gyffredinol	Mick Antoniw AS, Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad Piers Bisson, Cyfarwyddwr, Pontio Ewropeaidd, y Cyfansoddiad a Chyfiawnder, Llywodraeth Cymru Adam Turbervill, Uwch-gyfreithiwr, Gwasanaethau Cyfreithiol, Llywodraeth Cymru Robert Parry, Dirprwy Gyfarwyddwr, Cyfansoddiad a Thribiwnlysoedd Cymru, Llywodraeth Cymru
11 Gorffennaf 2022	Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru): gwaith craffu Cyfnod 1	Mick Antoniw AS, Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad Dylan Hughes, Prif Gwnsler Deddfwriaethol, Llywodraeth Cymru

Dyddiad	Diben	Enw a sefydliad
		Dr James George, Uwch-gwnsler Deddfwriaethol, Llywodraeth Cymru

Atodiad B: Gweithio rhyngseneddol

Mae aelodau'r Pwyllgor wedi cymryd rhan mewn cyfarfodydd â'r pwyllgorau seneddol a ganlyn a chyrrff seneddol eraill.

Dyddiad	Pwyllgor / Corff seneddol
21 Hydref 2021	Pwyllgor Cyfansoddiad Tŷ'r Arglwyddi
25 Chwefror 2022	Fforwm Rhyngseneddol
7 Mawrth 2022	Pwyllgor Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Materion Cyfansoddiadol Tŷ'r Cyffredin
30 Mawrth 2022	Arglwydd Lefarydd
12 – 13 Mai 2022	Cynulliad Partneriaeth Seneddol y DU a'r UE
18 Mai 2022	Pwyllgor Gweithdrefn Tŷ'r Cyffredin
16 Mehefin 2022	Pwyllgor Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Materion Cyfansoddiadol Tŷ'r Cyffredin Pwyllgor Materion Cymreig Tŷ'r Cyffredin Pwyllgor Craffu Tŷ'r Arglwyddi ar Fframweithiau Cyffredin Pwyllgor Cytundebau Rhyngwladol Tŷ'r Arglwyddi Pwyllgor Cyfansoddiad Tŷ'r Arglwyddi Pwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi Pwyllgor Materion Ewropeaidd Tŷ'r Arglwyddi